



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Canllawiau a Pholisi Diwygiedig Brynu Gorfodol yng Nghymru

Cylchlythyr newydd Llywodraeth Cymru ar y Weithdrefn Prynu Gorfodol yng Nghymru (gan gynnwys 'Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru, 2019)) a'r polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig ar ddefnyddio pwerau prynu gorfodol.

Ebrill 2020

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Ymatebion	4
3. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 1	6
4. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 2	16
5. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 3	19
6. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 4	22
7. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 5	31
8. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 6	36
9. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 7	40
10. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 8	44
11. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 9	49
12. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 10	53
13. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 11	62
14. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 12	64
ATODIAD A - RHESTR O'R YMATEBWYR	67

1. Cyflwyniad

- 1.1 Lansiodd yr ymgynghoriad ar y Polisi a'r Canllawiau Diwygiedig ar Brynu Gorfodol yng Nghymru" ar 9 Hydref 2019 ac roedd ar agor i ymatebion am gyfnod o 12 wythnos tan 17 Ionawr 2020. Ar ôl cais gan nifer o ymgynghoreion, cytunwyd i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion tan 24 Ionawr 2020. Nodwyd cyfanswm o 11 o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, a darparwyd ffurflen safonol er hwylustod. Gwnaed sylwadau y tu allan i'r cwestiynau safonol hefyd.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Mae wedi'i rhannu'n ddwy adran.
- 1.3 Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad a manylion ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.
- 1.4 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gyflwynwyd. Bydd hyn yn cynnwys:
- Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad.
 - Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad, lle y gellid llunio ystadegau.
 - Crynodeb a dadansoddiad o'r themâu allweddol sy'n deillio o bob cwestiwn.
 - Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad.
 - Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.
- 1.5 Wrth ddadansoddi a chrynhofio'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:
- **Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad a chymhwysedd Gweinidogion Cymru:** Lle y gwnaed sylwadau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, ond mewn perthynas â materion y tu allan i gwmpas y cwestiwn neu gymhwysedd cyfreithiol Gweinidogion Cymru, gwnaed ymdrechion i'w crynhoi o dan y cwestiwn cywir. Fodd bynnag, nid ymdrinnir â sylwadau sydd y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn a chymhwysedd cyfreithiol Gweinidogion Cymru.
 - **Sylwadau sy'n dehongli'r polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth gyfredol yn anghywir:** Cyflwynwyd ymatebion sy'n gofyn am newidiadau polisi, sydd mewn gwirionedd, naill ai'n adlewyrchu'r bwriadau a nodir yn y papur ymgynghori neu'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol na fwriedir ei newid.

2. Ymatebion

- 2.1 Ar 9 Hydref 2019, hysbyswyd mwy na 300 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy e-bost fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi. Dewiswyd y rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, yn ogystal â nifer o gyrff eraill a fynegodd ddiddordeb. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod cynllunio lleol ("ACLLau") yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau buddiant arbennig a grwpiau eraill. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Hefyd, cyflwynodd swyddogion y cynigion mewn dau ddigwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Prynu Gorfodol yn y gogledd ac yn y de.
- 2.2 Cafwyd 24 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i gyflwyno ymateb. Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei ddarllen a'i ystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.
- 2.3 Darparwyd ffurflen ymgynghori fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori ac roedd ar gael ar wahân ar wefan Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi i ba gategori o blith chwe chategori bras o ymatebwyr yr oeddent yn perthyn. Dengys Tabl 1 y dadansoddiad o'r ymatebwyr:

Tabl 1 - Dadansoddiad o'r Ymatebwyr		
Categori	Rhif	% of total
Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	8%
Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	4	17%
Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	29%
Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	4	17%
Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	6	25%
Y Sector Gwirfoddol	1	4%
Cyfanswm	24	

- 2.4 Cododd cwestiynau 1, 3-9 o'r ymgynghoriad gwestiynau penodol ynglŷn â pholisi. Roedd y cwestiynau yn gofyn am un o'r ymatebion canlynol; 'ydw', 'ydw (yn amodol ar sylwadau)' neu 'nac ydw'. Cyflwynir trosolwg ystadegol o'r ymatebion yn dangos natur yr ymatebion i'r cwestiynau fel rhan o'r dadansoddiad o bob cwestiwn yn adran 3. Lle nad oedd ymatebwyr wedi nodi ateb penodol, cafodd y rhain eu hystyried a'u cofnodi fel 'Ddim yn Gwybod'. Lle y darparodd ymatebwyr sylwadau ac roedd eu barn yn glir, ond ni wnaethant nodi ateb penodol, neilltuwyd naill ai 'ydw' (yn amodol ar sylwadau) neu 'nac ydw' i'r ymatebion hyn.

Tabl 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad	
C1	A ydych yn cytuno bod y canllawiau ar y gwahanol gamau o'r broses prynu gorfodol yn Rhan 1 o'r Cylchlythyr yn glir? Os nad ydych, pam?
C2	Yn Rhan 1 o'r Cylchlythyr rydym wedi cynnwys enghreifftiau o arfer gorau o ran codi a chynnal hysbysiadau safle. Byddem yn croesawu enghreifftiau gennych chi o arferion gorau eraill yn y broses o wneud gorchmynion prynu gorfodol. Defnyddiwch y lle isod.
C3	Ydych chi'n cytuno bod templed y ffurflen hawlio enghreifftiol a ddangosir yn Rhan 1 y Cylchlythyr yn gofyn am yr wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i: (a) hawlio iawndal am dir a gafodd ei gaffael trwy orfodaeth a/neu y cymeryd meddiant dros dro arno; neu (b) cais am ragdal iawndal?
C4	A ydych yn cytuno bod y canllawiau ar bwerau galluogi prynu gorfodol yn Rhan 2 o'r Cylchlythyr yn glir? Os nad ydych, pam? Os nad ydych, pam?
C5	A ydych yn cytuno bod y materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â gorchmynion prynu gorfodol wedi'u nodi'n glir yn Rhan 3 o'r Cylchlythyr? Os nad ydych, pam?
C6	A ydych yn cytuno bod y trosolwg o'r broses prynu gorfodol ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol anweinidogol yn Rhan 4 o'r Cylchlythyr yn glir i awdurdodau sy'n caffael a gwrthwynebwyr sy'n weddill? Os nad ydych, pam?
C7	A ydych yn cytuno bod y rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwaredu tir dros ben o eiddo'r llywodraeth a nodir yn Rhan 5 o'r Cylchlythyr ('Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru 2019)) yn glir i gynberchenogon tir / eu holynwyr, awdurdodau lleol a chyrrff statudol. Os nad ydych, pam?
C8	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio paragraff 3.53 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) a ddisgrifir ym mharagraff 25 y ddogfen 'Crynodeb Gweithredol o'r Ymgynghoriad'?
C9	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai ACLlau fabwysiadu polisïau cyffredinol sy'n disgrifio'r meini prawf y byddant yn eu defnyddio wrth ystyried a ddylent arfer eu pwerau prynu gorfodol neu beidio?
C10	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag isod i wneud sylwadau os gwelwch yn dda.
C11	Hoffem gael gwybod am eich astudiaethau achos lle mae pwerau prynu gorfodol wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus i gyflwyno cynlluniau adfywio a arweinir gan dai. Defnyddiwch y lle isod.
C12	Byddem yn croesawu eich syniadau ynghylch ble y gellid gwneud newidiadau o bosibl i'r system prynu gorfodol, yn eich barn chi, er mwyn gwella'r ffordd y caiff cynlluniau caffael gorfodol a arweinir gan dai eu cyflwyno. Defnyddiwch y lle isod.

3. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 1

C1	A ydych yn cytuno bod y canllawiau ar y gwahanol gamau o'r broses prynu gorfodol yn Rhan 1 o'r Cylchlythyr yn glir? Os nad ydych, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid cyhoeddi canllawiau ar y broses prynu gorfodol wedi'u rhannu'n chwe cham bras.	

Crynodeb Ystadegol					
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	3	0	0
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	3	1	0
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	1	2	1	2
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		8	9	2	5

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	2
Cyfanswm y Ganran	89%	11%

Adolygiad ystadegol

- 3.1 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod y canllawiau ar y broses prynu gorfodol yn Rhan 1 o'r fersiwn ddrafft o Gylchlythyr 003/2019 yn glir. O'r rhai a ymatebodd, (naill ai 'Ydw', 'Ydw, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw'), cytunodd 89%, ond anghytunodd 11%.
- 3.2 Roedd Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio, Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol oll o blaid y cynigion. Cafwyd gwrthwynebiadau gan un Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant ac un ymatebydd o'r sector Eraill. Nid ymatebodd un Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall ac un Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

3.3 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 1 fel a ganlyn:

- Y consensws cyffredinol yw bod y canllawiau yn Rhan 1 yn glir, yn ddefnyddiol ac yn sicrhau unfurfiaeth.
- Cyflwynwyd newidiadau penodol i Ran 1.
- Mae'n gadarnhaol gweld bod dyletswydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ("Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol") wedi'i chynnwys yn y canllawiau.

Trosolwg

- 3.4 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r canllawiau yn Rhan 1. Croesawodd un ACLI, a gytunodd fod y canllawiau yn Rhan 1 yn glir, y dull cadarnhaol o ddefnyddio gorchmynion prynu gorfodol, gan nodi bod y cwestiynau ym mharagraff 36 yn Rhan 1 yn rhestr wirio ddefnyddiol.
- 3.5 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, er ei fod yn cytuno, y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyngor ym mharagraff 64 yn Rhan 1 y dylai awdurdodau caffael "ystyried ariannu costau rhesymol negodi perchenogion tir neu gostau a threuliau eraill sy'n debygol o godi cyn y broses gaffael" gael ei nodi ym mharagraffau 34 a 52 yn Rhan 1. Haerodd yr ymatebydd, lle y caiff ffioedd proffesiynol rhesymol eu talu, fod y partion dan sylw yn cael y gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gam cynnar ac y gellir meithrin perthynas dda, gan helpu'r prosiect i fynd rhagddo'n haws. At hynny, mae'n bwysig bod awdurdodau caffael yn gwneud darpariaeth realistig ar gyfer cost lawn cyngor proffesiynol, a all gynnwys cyngor gan gyfreithwyr a chyfrifwyr yn ogystal â syrfewyr a phriswyr.
- 3.6 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y byddai'n werth ystyried unrhyw adborth ar ddefnyddio'r canllawiau er mwyn helpu i'w gwneud yn fwy defnyddiol.
- 3.7 Nododd ACLI fod meysydd deddfwriaethol gwahanol y mae pwerau prynu gorfodol yn deillio ohonynt, e.e. ymgymerydd statudol o dan Ddeddf Trydan 1989 a Deddf Cyfathrebu 2003 sy'n darparu mai'r Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod cadarnhau. Derbynnir mewn sawl maes ei bod y tu hwnt i gymhwysedd datganoledig Llywodraeth Cymru i symleiddio'r broses prynu gorfodol.
- 3.8 Nododd ACLI arall ei bod yn gadarnhaol bod Rhan 1 yn canolbwyntio ar gaffael drwy gytundeb a defnyddio gorchmynion prynu gorfodol fel adnodd i annog perchenogion tir i fod yn fwy parod i gymryd rhan mewn negodiadau ystyrlon.
- 3.9 Gwnaeth ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y sylwadau canlynol ar Ran 1:
- Paragraff 31: er mwyn caffael tir ar raddfa eang, mae'n rhaid gwneud rhagor i sicrhau y gall gorchymyn prynu gorfodol redeg ochr yn ochr â phroses wirfoddol a byddai'n ddefnyddiol nodi'r camau penodol sydd eu hangen neu gyfeiriadau at y rhannau perthnasol o'r canllawiau.
 - Paragraff 34: mae cyllid yn ystyriaeth bwysig iawn a dylai fod mewn adran ar wahân.
 - Paragraffau 38 a 39: dylent egluro lle mae cytundeb cefn wrth gefn yn gymwys, yn hytrach na'r trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 38 nad ydynt, o reidrwydd, yn perthyn i'r math hwn.

- Paragraff 151: mae caffael drwy ddefnyddio datganiad breinio cyffredinol yn golygu caffael y tir sy'n dal i fod yn ddarostyngedig i hawddfreintiau/cyfngiadau/arwystlau, pe na pai'r rhain yn cael eu dileu cyn i'r gorchymyn gael ei wneud. Yn ddelfrydol, dylai proses prynu gorfodol arwain at gaffael tir nad oes unrhyw rhwystrau arno, ond nid yw hyn yn digwydd bob amser.

3.10 Cyflwynodd ACLI y sylwadau canlynol ar Ran 1:

- Mae prynu gorfodol yr un mor berthnasol o ran hwyluso datblygu masnachol ag ydyw i dai. Gofynnir i hyn gael yr un gydnabyddiaeth a ffocws yn y Cylchlythyr ac astudiaethau achos.
- Gall fod yn fwy buddiol i bwrs y wlad pe cytunid i brynu eiddo ar werth chwyddedig na defnyddio gorchymyn prynu gorfodol, hyd yn oed lle mae'r gorchymyn wedi'i ganiatáu. Gellid cynnwys yn ffurfiol yn y canllawiau yr hyblygrwydd i gytuno ar brisiau prynu sy'n fwy na'r gwerth tebygol ar y farchnad, lle y gellir dangos y bydd cost derfynol debygol caffael yr eiddo drwy orchymyn prynu gorfodol yn fwy na'r cost chwyddedig ac felly'n cynnig y gwerth gorau i arian cyhoeddus.
- Mae gorchymynion prynu gorfodol i gaffael ac ailddatblygu safle yn debygol o fynd yn ddiangen ar gyfer safleoedd y tu allan i ganol trefi a dinasoedd os cânt eu sterileiddio o ran bod yn gymwys i gael arian cyhoeddus.
- Paragraff 17, pwynt bwled 4: ar ôl "whether", dylid dileu "how" yn y testun Saesneg.
- Paragraff 56: mae angen dangos nad oes rheswm amlwg dros wrthod rhoi caniatâd cynllunio. Mae'r un egwyddor yn gymwys i ganiatadau ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig.
- Paragraff 97: gofynnir am eglurder, h.y. mae'r frawddeg gyntaf yn nodi bod yn rhaid i ymweliad â safle gael ei gynnal ac mae'r ail frawddeg yn nodi "lle na chynhaliwyd ymweliad â safle...".

Cyflwynwyd rhan o'r ymateb o dan gwestiwn 10. Barnwyd ei bod yn fwy priodol ystyried yr ymateb o dan y dadansoddiad o'r cwestiwn hwn o ystyried ei fod yn ymwneud â chanllawiau a geir yn Rhan 1.

3.11 Gwnaeth ymatebydd o'r sector Eraill y sylwadau canlynol ar Ran 1:

- (a) Byddai'n ddefnyddiol crynhoi'r cyfngiadau sy'n effeithio ar ddefnyddio gorchymynion prynu gorfodol mewn rhestr a'r hyn y mae angen ei gyflawni cyn y dylid ceisio pwerau gorchymyn prynu gorfodol, h.y.
- dim ond pan fetho popeth arall;
 - dylid bod wedi gwneud ymdrech resymol i gaffael drwy gytundeb;
 - mae'n rhaid ei bod yn anghenrheidiol cael y tir;
 - mae angen dangos achos cymhellol er budd y cyhoedd;
 - mae'n rhaid bod tystiolaeth glir y bydd budd y cyhoedd yn fwy na'r golled breifat.
- (b) Dylai paragraff 22 a paragraff 23 egluro y dylai awdurdodau caffael wneud cynigion rhesymol sy'n cynnwys pob swm y mae gan berchenogion tir yr hawl iddo o dan y penawdau digolledu perthnasol. Bydd hyn yn helpu i roi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd eu bod yn cael y cynnig gorau posibl o'r dechrau.
- (c) Dylid ychwanegu'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd at y rhestr o awdurdodau caffael yn Nhabl 1 gan ei bod yn dal pwerau prynu gorfodol o dan adran 15(2A) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

3.12 Cytunodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant fod Rhan 1 yn glir ar yr amod yr ymdrinnir â'r materion canlynol:

(a) Paragraffau 15 i 18: mae angen rhagor o ganllawiau ar yr hyn a olygir gan "disgwyl i'r awdurdodau caffael hyn gyfeirio at egwyddorion" Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ystyrir y dylai awdurdodau caffael yn y sector preifat weithredu yn union yr un ffordd â'r sector cyhoeddus.

(b) Paragraff 36: dylid ychwanegu'r canlynol at y rhestr wirio o gwestiynau –

(i) A oes unrhyw rwystrau a fyddai'n atal ein prosiect arfaethedig rhag mynd rhagddo pe baem yn caffael y tir?

(ii) A oes angen caniatâd cynllunio ac, os felly, a yw wedi'i sicrhau? Os nad ydych, pam?

(c) Dylid ei gwneud yn glir y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn rhan o'r cynllun datblygu yn hytrach na bod yn ystyriaeth berthnasol.

(d) Paragraff 41: Dylid ei gwneud yn glir, os nad yw Deddf alluogi yn crybwyll cytundeb cefn wrth gefn, yna y dylai awdurdodau lleol ddibynnu ar bwerau ehangach awdurdodau lleol i ymrwymo i wahanol fathau o gytundebau.

(e) Paragraff 63: byddai'n fuddiol ychwanegu esboniad o'r hyn y mae pob techneg amgen o ddatrys anghydfod yn ei olygu.

3.13 Nododd ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio y dylid rhoi canllawiau o dan yr is-adran 'Trosolwg Cyffredinol' yn Rhan 1 ar sefyllfa bresennol cymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phwerau prynu gorfodol, gweithdrefn a digolledu. Hefyd, 'Cam 6: Dylai'r is-adran ar ddigolledu gyfeirio at effaith adran 4(2) o Ddeddf lawndal Tir 1961 sy'n ymwneud â diystyru gwaith neu fuddiannau a greir at ddiben cynyddu'r swm digolledu sy'n daladwy. Awgrymodd yr ymatebydd y dylid gwneud newidiadau i'r canllawiau canlynol yn Rhan 1:

- Paragraff 10: ailddrafftio ac ailenwi fel "The purpose and justification for compulsory purchase" yn y testun Saesneg.
- Paragraff 11: cyfuno â pharagraffau 22-23, 30-31 a 33 er mwyn sicrhau bod y canllawiau ar ddechrau gorchmynion prynu gorfodol a'r rhwymedigaeth i geisio caffael tir yn wirfoddol mewn un man.
- Paragraff 12: ailddrafftio'r testun Saesneg i nodi bod gan lawer o gyrff cyhoeddus "powers of compulsory purchase in support of their functions and activities" a rhoi enghreifftiau o ymgwymerwyr statudol ac asiantaethau gweithredol sydd â phwerau i wneud gorchmynion prynu gorfodol.
- Paragraff 12: ei gwneud yn glir ai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cadarnhau ac ymhelaethu ar y cyfeiriad at bwerau Gweinidogion Cymru eu hunain i wneud gorchmynion prynu gorfodol.
- Paragraffau 15 i 17: dylent ragflaenu'r adran ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- Paragraff 20: ailenwi fel "Other persons eligible to initiate compulsory acquisition".
- Paragraff 21: ailenwi fel "Other ways powers of compulsory purchase are obtained" yn y testun Saesneg a mewnosod cyferiad at Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993.
- Paragraff 21: dylid adolygu'r cyfeiriad at y "DU" fel Bil sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr ond sy'n gymwys yn benodol o ran ei ddarpariaethau i wneud gorchmynion prynu gorfodol i berchenogion tir yr effeithir arnynt.
- Paragraff 21: mewnosod cyfeiriad bod gan y dulliau y cyfeirir atynt yn yr adran hon eu canllawiau a'u harferion cymwys eu hunain.

- Paragraff 25: mae'r cyfeiriad at Ddeddfau arbennig yn gorgyffwrdd â pharagraff 21 a dylai'r pynciau yn Nhabl 1 gael eu rhestru yn nhrefn y wyddor.
- Paragraffau 34 i 35: mae angen pennawd is-adran ar wahân ar gyfer canllawiau ar gyllid ac awgrymir bod angen rhagor o ganllawiau ar ba dystiolaeth y dylai awdurdod caffael ei chyflwyno lle mae cynllun wedi'i gyllido'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan gyllid Gweinidogion Cymru.
- Paragraff 36: dylai rhestr wirio ymddangos ar ddiwedd yr adran awgrymedig yn dwyn y teitl "Initiating a Compulsory Purchase" yn y testun Saesneg gyda phob pwynt bwled yn cynnwys cyfeiriad at baragraffau sy'n cynnwys rhagor o ganllawiau ar y pwynt.
- Paragraff 37: dylai'r canllawiau ddilyn y cyngor ar waith cynllunio cynnar a pharatoi ar gyfer y defnydd posibl o bwerau gorchymyn prynu gorfodol ac mae angen ymhelaethu ar y cyfeiriad at "rhwng 12 a 18 mis cyn penderfyniad".
- Paragraffau 38 i 41: mae angen gwahaniaethu rhwng: (a) lle mae'r awdurdod caffael yn bwriadu cydgasglu tir i greu safle a'i roi ar y farchnad i'w ddatblygu yn unol â'r cynllun sylfaenol ac mae "partner" datblygu wedi cael ei nodi ac mai ei gynllun yw'r sail dros y gorchymyn prynu gorfodol; a (b) lle mae cytundeb datblygu ar waith.
- Paragraffau 38 i 41: dylai'r canllawiau nodi'r awdurdod caffael a dylai'r datblygwr fod yn barod i ddatgelu telerau'r cytundeb datblygu neu grynoded llawn, yn amodol ar olygu telerau masnachol cyfrinachol gwirioneddol yn unig.
- Paragraffau 42 i 44: gallai'r canllawiau fod yn gliriach a thynnu sylw at adran 233(5)-(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n rhoi cyfle i feddianwyr perthnasol gael llety pan fydd datblygiad ar dir a ddelir at ddibenion cynllunio yn cael ei waredu a'r gyfraith achosion ar hyd a lled y rhwymedigaeth.
- Paragraff 45: dylai'r canllawiau gael eu rhannu a dylent gyfeirio at 'Reolau Cricel Down (fersiwn Cymru 2019)'.
- Paragraff 47: dylai'r canllawiau groesgyfeirio at gyfeiriadau cynharach at y prawf allweddol.
- Paragraffau 48 i 49: dylent fod ochr yn ochr â'r adrannau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector.
- Paragraff 54: byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau ar gyllid a gwmpesir hefyd ym mharagraffau 34 a 35 yn cael eu cynnwys mewn un adran, gyda chyfeiriadau at gyllid mewn manau eraill yn cyfeirio at y drafodaeth helaeth ar yr agwedd hon.
- Paragraffau 55 i 56: mae'r gofyniad i ymdrin â'r caniatâd cynllunio (a chaniatadau eraill) yn ystyriaeth allweddol wrth baratoi ac amserlennu gorchymyn prynu gorfodol, ac mae hyn yn haeddu adran o dan ei bennawd ei hun yn y testun Saesneg "Planning Permission and Other Consents and Impediments".
- Paragraff 57: mae'r canllawiau ar gynnal asesiadau o'r effaith a'u diweddarau a chynigion lliniaru yn berthnasol i unrhyw gynllun sy'n cael effeithiau amgylcheddol.
- Paragraffau 59 i 60: dylai'r diogelwch statudol a roddir i ymgwymerwyr statudol fod yn gryfach.
- Paragraff 61 i 62: dylid cyfeirio at y ddarpariaeth yn Rheolau'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) ar gyfer y Tribiwnlys er mwyn awgrymu a hwyluso defnyddio technegau amgen o ddatrys anghydfod mewn achosion ger ei fron, a ategir gan ofyniad wrth ymdrin â chostau i ystyried a yw parti wedi gwrthod ystyried technegau amgen o ddatrys anghydfod yn afresymol.

- Paragraff 64: mae'r arfer orau yn y pwynt bwled olaf yn gymwys mewn perthynas â chynlluniau priffyrdd mawr a gallai'r awgrymiadau hyn gael eu mewnosod yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol lle y gellir eu datblygu'n fanylach a chyfeiriad at hynny yma.
- Paragraffau 65 i 66: dylai'r canllawiau gyfeirio at y canllawiau ym mharagraffau 73-74 ar y rhagwiriadau technegol gan Lywodraeth Cymru a dylai'r paragraffau hyn gael eu rhoi mewn grŵp am eu bod yn ymdrin â'r un pwnc.
- Paragraff 67: byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at adrannau perthnasol yn Rhan 3 o'r Cylchlythyr yma.
- Paragraff 71: efallai y byddai lefel y manylion ymarferol ynglŷn ag arferion gorau yn fwy addas ar gyfer y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol.
- Paragraff 71: gellid dehongli mai ystyr "cael effaith" yn y chweched frawddeg yw y gall gwrthwynebiad, os nad yw'n ddigon perthnasol, gael ei ystyried yn annilys. Awgrymir y dylai llythyr gwrthwynebu amlinellu'r materion a wrthwynebir.
- Paragraff 71: byddai'n ddefnyddiol pe bai cyfeiriad at y pŵer i ddiystyru gwrthwynebiadau sy'n ymwneud ag iawndal.
- Paragraff 71: byddai'n ddefnyddiol pe bai'r holl ganllawiau ar wrthwynebiadau yn y paragraff hwn ac ym mharagraffau 86-89 a 91-92 yn cael eu cyfuno.
- Paragraffau 109 i 110: dylid rhannu'r driniaeth o gostau gweinyddol a chwestiwn dyfarnu costau i wrthwynebydd.
- Paragraff 144: byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at y darpariaethau yn adran 31 o Ddeddf Digollediad Tir 1961 ar dynnu Hysbysiad i Draffod Telerau yn ôl.
- Paragraffau 198 i 213: dylid tynnu sylw at y canllawiau ar y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau caffael wneud rhagdaliad ar adeg meddiannu tir ar ddechrau'r adran hon ac mae angen rhagor o ganllawiau ar y cyfyngiadau ar gymhwyso Deddf Cydgrynhoi Cymalau Tiroedd 1845.

3.14 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Eraill y dylid gwneud y newidiadau i'r canllawiau canlynol yn Rhan 1:

- Paragraffau 39 i 41: dylid defnyddio "selected" yn y testun Saesneg yn hytrach na "preferred".
- Paragraff 42: a dylid ychwanegu "and that broad agreement has been agreed in writing with the affected community" ar ddiwedd y frawddeg gyntaf ym mhwynt bwled 3.
- Paragraff 52: dylid ehangu'r canllawiau i nodi y dylai awdurdodau lleol ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus i esbonio cynigion, ateb cwestiynau a chadarnhau a ellir gwneud newidiadau i'w cynlluniau.
- Paragraff 52: mae "public" yn llinell 5 o'r testun Saesneg wedi'i gamsillafu.
- Paragraff 53: gellid newid y canllawiau i osod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i gydgyssylltu â chymunedau a chyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar y ffordd y cyflawnwyd hyn cyn cadarnhau unrhyw orchymyn prynu gorfodol.
- Paragraff 54: mae "in" ar goll yn y frawddeg olaf yn y testun Saesneg.
- Paragraff 69: dylid ychwanegu "and in any village/community magazine or newsletter circulating in the area which shall include a copy of the statement of reasons" ar ddiwedd y paragraff yn y testun Saesneg.
- Paragraff 144: Dylid gwneud "Dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig y gellir tynnu hysbysiad i draffod telerau yn ôl" yn fwy eglur drwy roi enghreifftiau fel ym mharagraff 152.
- Paragraff 176: nid yw'n darllen yn gywir, h.y. mae dau (ii).
- Paragraff 216: yn y testun Saesneg dylid dileu "is" yn "This is model claim form....".

Gwnaeth yr ymatebydd sylwadau hefyd ar y canllawiau canlynol yn Rhan 1:

- Paragraff 22: Ni ddylid rhoi coel ar gynllun datblygu lleol (CDLI) sy'n cael ei ddatblygu ar gam "pan fetho popeth arall" am nad yw'r ddarpariaeth ym mharagraffau 2.14.1 i 2.14.4 ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) (Argraffiad 9) wedi cael ei chynnwys yn PCC (Argraffiad 10).
- Paragraff 84: Gall Gweinidogion Cymru ddychwelyd gorchymyn prynu gorfodol i'w gadarnhau gan awdurdod lleol os na fu unrhyw wrthwynebiadau. Dylai fod gweithdrefn hawdd i unrhyw un sy'n teimlo yr effeithir arnynt, geisio gwrthod y penderfyniad hwn a gofyn i Weinidogion Cymru gadarnhau'r gorchymyn prynu gorfodol.
- Paragraff 89: Nid yw'r paragraff hwn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, h.y. meithrin cymunedau cydlynol. Dylai fod hawl gan grwpiau cymunedol neu grwpiau buddiant arbennig i ymddangos mewn unrhyw ymchwiliad os ydynt wedi cyflwyno gwrthwynebiad heb ddibynnu ar benderfyniad gan yr arolygydd.

Byddai'n well pe bai gan wrthwynebydd yr hawl i gael gwrandawriad oni bai bod yr arolygydd yn dyfarnu mai gwrthwynebwyr blinderus ydynt. Hefyd, bydd fydd yn digwydd os bydd arolygydd yn gwrthod rhoi'r hawl i ymddangos i grŵp cymunedol. O dan amgylchiadau o'r fath, dylai fod dull o herio penderfyniad o'r fath i wrthod rhoi'r hawl. Wedi'r cyfan, dim ond "pan fetho popeth arall" y gwneir gorchymyn prynu gorfodol.

- Paragraff 155: Os caiff tir anghofrestredig ei gaffael drwy ddatganiad breinio cyffredinol, byddai'n well pe bai'n rhaid i awdurdodau lleol wneud cais i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf Cofrestru Tir 200.
- Paragraff 172: Mae'r rhai dros 60 oed yn gymwys i gael taliadau tarfu yn sgil diddymu busnes. Ymddengys fod hyn yn anghywir yng ngoleuni'r Ddeddf Hawliau Dynol. Dylai'r oedran adlewyrchu naill ai oedran pensiwn y wladwriaeth, sef 68 oed neu'r sefyllfa lle y gall dechrau busnes newydd neu gael cyflogaeth dros 50 oed fod yn anodd.

3.15 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, a anghytunodd fod Rhan 1 yn glir, fod lle i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- (a) Rhoi rhagor o ganllawiau ar yr hyn sy'n gyfystyr â budd y cyhoedd, yn enwedig lle mae cytundeb wedi cael ei gynnig ond mae'r sawl sy'n caffael am ymgymryd â'r cynllun drwy brynu gorfodol o hyd, h.y. a ellid cyflawni'r un canlyniad terfynol drwy gytundeb heb brynu gorfodol.
- (b) Nodi'n glir mewn canllawiau ar brynu gorfodol mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio proses prynu gorfodol pan fo pob datrysiad arall yn amhosibl, yn hytrach nag fel yr opsiwn hawsaf i'r awdurdod caffael, oherwydd ei effaith ddirifol ar fywoliaethau unigolion.
- (c) Drwy'r canllawiau, gosod Dyletswydd Gofal glir ar awdurdodau caffael i ystyried yr effaith ar hawlwr o'r cychwyn, a'i lliniaru.
- (d) Nodi yn y canllawiau y dylai ymgynghoriad a gynhelir ag unigolion a busnesau fel rhan o'r broses o nodi manylion cynllun, ei gynllunio, ei gyllido a'i gaffael yn derfynol gael ei gynnal yn llawn ac mewn modd amserol.
- (e) Egluro drwy'r canllawiau y caiff y rhai sydd â hawliau dros dir (yn hytrach na pherchenogion tir/meddianwyr) hefyd eu hysbysu bod gorchymyn prynu gorfodol yn cael ei wneud oherwydd, er nad ydynt yn colli tir, gellid effeithio arnynt os ydynt yn dibynnu ar yr hawliau hynny.
- (f) Pwysleisio drwy'r canllawiau y dylai fod gan ddarpar hawlwr yr hawl i gael gwrandawriad yn bersonol, pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun ac yna'n derfynol mewn ymchwiliad pan gaiff y penderfyniad terfynol ei wneud.

- (g) Gwneud y canlynol yn fwy eglur:
- (i) paragraff 39 am ei fod yn awgrymu y gallai unrhyw werth dros ben gael ei gadw gan y datblygwr neu'r awdurdod lleol ac ni ddylai hyn ddigwydd oherwydd dylai unrhyw swm dros ben gael ei ddychwelyd at berchennog y tir; a
 - (ii) paragraff 50 am fod pryder nad yw'n ddigon eglur na ddylai gorchmynion prynu gorfodol fod yn dybiannol a'i bod yn bosibl iddynt gael eu gwneud pan na chafwyd y cyllid na'r caniatâd cynllunio.

3.16 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Eraill nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C1 Ymateb Llywodraeth Cymru

Newidiadau penodol i Ran 1

Byddwn yn ystyried newid y canllawiau canlynol yn Rhan 1 yn unol â sylwadau'r ymatebwyr a amlinellir uchod:

- Paragraffau 10 i 12
- Paragraffau 15 i 17
- Paragraffau 20 i 21
- Paragraff 25
- Paragraffau 34 i 45
- Paragraffau 47 i 49
- Paragraff 50
- Paragraffau 52 i 53
- Paragraffau 54 i 57
- Paragraffau 59 i 62
- Paragraffau 64 i 67
- Paragraff 69
- Paragraff 71
- Paragraffau 109 i 110
- Paragraff 144
- Paragraff 176
- Paragraffau 198 i 213
- Paragraff 216

Newidiadau cyffredinol i Ran 1

Byddwn yn ystyried gwneud y newidiadau canlynol i'r canllawiau yn Rhan 1:

- Rhoi'r un gydnabyddiaeth a ffocws yn y canllawiau i'r ffaith bod prynu gorfodol yn berthnasol o ran hwyluso datblygu masnachol.
- Rhestru'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar ddefnyddio gorchmynion prynu gorfodol a'r hyn y mae angen ei gyflawni cyn y dylid ceisio pwerau gorchymyn prynu gorfodol.
- Rhoi rhagor o ganllawiau ar yr hyn sy'n gyfystyr â budd y cyhoedd, yn enwedig lle mae cytundeb yn cael ei gynnig ond mae'r sawl sy'n caffael am ymgymryd â'r cynllun drwy ddefnyddio proses prynu gorfodol o hyd.
- Nodi'n glir mai dim ond pan fetho popeth arall, pan na fydd pob datrysiad arall yn bosibl oherwydd ei effaith ddifrifol ar fywoliaethau unigolion, y dylid defnyddio proses prynu gorfodol.
- Drwy'r canllawiau, gosod Dyletswydd Gofal glir ar awdurdodau caffael i ystyried yr effaith ar hawlwr o'r cychwyn, a'i lliniaru.

- Nodi y dylai ymgynghoriadau a gynhelir fel rhan o'r broses o nodi manylion cynllun, ei gynllunio, ei gyllido a'i gaffael yn derfynol gael eu cynnal mewn modd llawn ac amserol.
- Gwneud yn eglur y dylai'r rhai sydd â hawliau dros dir gael eu hysbysu bod gorchymyn prynu gorfodol yn cael ei wneud.
- Pwysleisio y dylai fod gan ddarpar hawl wyr yr hawl i gael gwrandawriad yn bersonol, pan gaiff penderfyniadau eu gwneud drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun ac mewn ymchwiliad.

Prisiau prynu sy'n fwy na'r gwerth ar y farchnad

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol ochr yn ochr â Chylchlythyr 003/2019 a fydd yn cynnwys arferion gorau manwl. Caiff hyperddolenni eu mewnosod yng Nghylchlythyr 003/2019 i gyfeirio at yr arferion gorau a geir yn y Llawlyfr. Byddwn yn ystyried cynnwys cyfeiriadau yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol at yr arfer o sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus drwy gaffael drwy gytundebau sy'n fwy na'r gwerth ar y farchnad ond sy'n is na chost derfynol caffael drwy orchymyn prynu gorfodol.

Defnyddio Cylchlythyr 003/2019

Ar ôl rhoi Cylchlythyr 003/2019 ar waith, byddwn yn monitro'r defnydd a wneir o'r canllawiau drwy'r canlynol:

- adolygiad blynyddol o weithgarwch gorchymynion prynu gorfodol gan awdurdodau caffael;
- gwasanaeth rhagwirio technegol Llywodraeth Cymru ar gyfer gorchymynion prynu gorfodol drafft; a
- ceisio adborth ar weithredu gan yr ymarferwyr.

Rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i gydgysylltu â chymunedau

Byddwn yn ystyried cryfhau'r canllawiau yn Rhan 1 i bwysleisio arferion gorau i awdurdodau caffael sy'n ymgysylltu ac yn ymgynghori â chymunedau ar gynlluniau caffael tir yn ystod y cam cynllunio a pharatoi. Caiff perfformiad awdurdodau caffael o ran ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau ei fonitro drwy wasanaeth rhagwirio technegol Llywodraeth Cymru ar gyfer gorchymynion prynu gorfodol drafft.

Cynlluniau datblygu

Mae cyngor ar ystyried cynlluniau datblygu sy'n cael eu datblygu neu gynlluniau datblygu nad ydynt yn gyfredol mwyach wedi'i gynnwys ym Mhenod 7 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ac mae'n dal i fod yn gyfredol. Felly, rydym yn gwrthod ceisiadau am i baragraff 22 yn Rhan 1 o Gylchlythyr 003/2019 gael ei newid.

Dirprwyo penderfyniadau cadarnhau i awdurdodau lleol: niwed i bartion â diddordeb neu bartion yr effeithir arnynt

Darperir y pŵer i Weinidogion Cymru ddirprwyo penderfyniad cadarnhau i awdurdod lleol gan adran 14A o Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981"). Mae adran 14A o Ddeddf 1981 yn darparu y gellir dirprwyo i awdurdod lleol pan na fydd gwrthwynebiadau i orchymyn prynu gorfodol yn weddill a phan fydd y gofynion o ran hysbysiad statudol a chyhoeddi a nodir yn Neddf 1981 wedi'u bodloni. Cyhyd â bod y gofynion statudol hyn wedi'u bodloni, yna ni ddylai fod niwed i barti â diddordeb na pharti yr effeithir arno.

Gwrthwynebiadau:hawl trydydd partïon i gael gwrandawriad

Diben gorchymyn prynu gorfodol yw trosglwyddo tir neu'r hawliau dros dir i awdurdod caffael y tu allan i gytundeb gwirfoddol. Mae'r canllawiau yn adlewyrchu deddfwriaeth sylfaenol sy'n cadarnhau bod gan bob gwrthwynebydd gorchymyn prynu gorfodol, h.y. y rhai sy'n gymwys i gael iawndal os cadarnheir gorchymyn prynu gorfodol (y cyfeirir atynt fel "gwrthwynebwy'r sy'n weddill") yr hawl i gael gwrandawriad.

Nid ydym yn bwriadu newid y ddarpariaeth hon mewn deddfwriaeth sylfaenol. Os bydd grŵp cymuned neu grŵp buddiant yn wrthwynebydd sy'n weddill i orchymyn prynu gorfodol bydd ganddo hawl statudol i ofyn am i ymchwiliad gael ei gynnal.

Mae'r canllawiau ym mharagraff 89 yn Rhan 1 yn adlewyrchu'r arfer bresennol bod gan arolygwyr ddisgresiwn i ganiatáu i drydydd partïon gael gwrandawriad mewn ymchwiliad hyd yn oed os nad ydynt yn wrthwynebydd sy'n weddill.

Cofrestru tir anghofrestredig o dan adran 3 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002

Mae gweithdrefn y datganiad breinio cyffredinol yn caniatáu i berchenogaeth dros dir anghofrestredig gael ei drawsgludo i awdurdod caffael. Drwy'r broses hon, caiff y Gofrestrfa Tir ei hysbysu o'r berchenogaeth newydd.

Taliadau tarfu:diddymu busnes o dan berchenogaeth person dros 60 oed

Mater wedi'i gadw yn ôl i Lywodraeth y DU yw iawndal. Fel y cyfryw, nid oes gan Weinidogion Cymru gymhwysedd i newid deddfwriaeth sy'n ymwneud â thaliadau tarfu nac iawndal tir yn gyffredinol.

Hygyrchedd y canllawiau

Caiff adolygiad o Ran 1 ei gynnal i wella hygyrchedd y canllawiau.

Y camau nesaf

- 3.18 Cynigir y dylid mabwysiadu'r canllawiau yn Rhan 1 yn y fersiwn derfynol o Gylchlythyr 003/2019 yn amodol ar newidiadau a gynigiwyd gan ymatebwyr a dderbyniwn (gweler ymateb Llywodraeth Cymru uchod).
- 3.19 Caiff y defnydd o Gylchlythyr 003/2019 ac ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau gan awdurdodau caffael eu monitro drwy'r canlynol:
- adolygiad blynyddol o weithgarwch sy'n ymwneud â gorchymynion prynu gorfodol;
 - gwasanaeth rhagwirio technegol Llywodraeth Cymru ar gyfer gorchymynion prynu gorfodol drafft; a
 - ceisio adborth ar weithredu gan yr ymarferwyr.

4. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 2

C2	Yn Rhan 1 o'r Cylchlythyr rydym wedi cynnwys enghreifftiau o arferion gorau o ran codi a chynnal hysbysiadau safle. Byddem yn croesawu enghreifftiau gennych chi o arferion gorau eraill yn y broses o wneud gorchmynion prynu gorfodol. Defnyddiwch y lle isod.
Gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr roi enghreifftiau o arferion gorau wrth ymgymryd â'r broses o wneud gorchmynion prynu gorfodol.	

Themâu allweddol

4.1 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 2 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth i gynnwys arferion gorau yng Nghylchlythyr 003/2019 ac arferion gorau eraill ar godi hysbysiadau safle.
- Arferion gorau o ran anfon llythyrau cyn hysbysu, cyn cyhoeddi hysbysiadau safle.
- Arferion gorau o ran materion sy'n ymwneudd ag iawndal.
- Arferion gorau o ran y broses gwneud penderfyniadau sy'n arwain at benderfyniad i wneud gorchmynion prynu gorfodol.
- Pwyslais ar gyfathrebu'n dda drwy gydol y broses o wneud gorchmynion prynu gorfodol.

Trosolwg

- 4.2 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i gynnwys arferion gorau yng Nghylchlythyr 003/2019. Nododd un ACLI, a oedd o blaid cynnwys arferion gorau, ei bod yn ddefnyddiol sicrhau bod gorchmynion prynu gorfodol yn cael eu gwneud yn gywir.
- 4.3 Nododd un ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio y gellid gwella'r arferion gorau o ran codi a chynnal hysbysiadau safle drwy awgrymu y dylid cadw cofnodion ffotograffig o arolygiadau i ddangos dyddiad ac amseroedd. Nododd ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall y dylai gwiriadau ar hysbysiadau safle gael eu cynnal yn amlach nag unwaith yr wythnos. Awgrymodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylid ymestyn arferion gorau o ran hysbysiadau safle er mwyn sicrhau bod awdurdodau caffael yn ystyried darpariaeth briodol o hysbysiadau safle, gan ystyried faint o dir y mae a wnelo'r gorchmynion prynu gorfodol ag ef a'r lleoliad(au) lle y cânt eu harddangos o ran hygyrchedd a gweledadwyedd i'r cyhoedd.
- 4.4 Awgrymodd un ACLI arferion gorau ynglŷn ag anfon llythyr at berchenogion tir yn eu hysbysu ymlaen llaw bod hysbysiadau safle yn cael eu codi ac yn cynnwys fersiwn ddrafft o'r hysbysiadau. Nododd yr ymatebydd y byddai hyn yn rhoi amser ychwanegol i berchenogion y tir ystyried goblygiadau'r hysbysiad a chymryd bwiriadau'r awdurdod caffael o ddifrif. At hynny, ystyrir ei bod yn arferion gorau rhannu gwybodaeth â phartion yr effeithir arnynt mor gynnar yn y broses ag sy'n bosibl yn rhesymol.
- 4.5 Nododd un ymatebydd o'r sector Eraill y byddai'n ddefnyddiol cael arferion gorau o ran pa iawndal fydd ar gael i berchenogion tir, gan gynnwys pob pennawd iawndal y gellid yn rhesymol wneud cais amdano. Nododd ymatebydd arall o'r sector Eraill ei bod yn arferion gorau i awdurdodau caffael ffurfio timau prosiect cymwysedig iawn i ymgynghori a negodi â pherchenogion tir a'r partion â diddordeb dan sylw. Hefyd, dylai awdurdodau caffael ystyried yr angen posibl am i'r tîm gorfodi feddiannu tir.

- 4.6 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y byddai arferion gorau yn ddefnyddiol o ran y broses gwneud penderfyniadau sy'n arwain at benderfyniad i wneud gorchymyn prynu gorfodol o ystyried mai cyfyngedig yw'r cyngor yn y Cylchlythyr drafft ynglŷn â sut i ddangos tystiolaeth o'r angen i wneud gorchymyn prynu gorfodol. Nododd yr ymatebydd fod adroddiadau Pwyllgor fel arfer yn amlinellu'r pwerau a'r ystyriaethau dan sylw er mwyn sicrhau bod penderfyniadau i wneud gorchymyn prynu gorfodol ai peidio yn gadarn ac yn arwain at argymhelliad a phenderfyniad. At hynny, byddai arferion gorau o ran y mater hwn yn gymwys i bob awdurdod caffael, h.y. ymgymrwyr statudol a chwmnïau preifat gan y bydd yn helpu i sicrhau y dangosir tystiolaeth ynglŷn â phenderfyniadau i wneud gorchymyn prynu gorfodol.
- 4.7 Awgrymodd ymatebydd arall o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd gwahaniaethu rhwng arferion gorau yng Nghylchlythyr 003/2019 a'r canllawiau cyffredinol, er enghraifft, drwy ddefnyddio blychau tywyll neu destun italig. Hefyd, byddai'n fuddiol pe bai arferion gorau yn cael eu casglu ynghyd mewn rhestr wirio er mwyn ei gwneud yn haws cyfeirio atynt. Rhoddodd yr ymatebydd yr enghreifftiau canlynol o arferion gorau:
- Os bydd awdurdod caffael yn talu am gost ffioedd proffesiynol rhesymol, bydd y partiön dan sylw yn cael y gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gam cynnar a gellir meithrin perthynas dda a fydd yn helpu'r prosiect i fynd rhagddo'n fwy effeithlon.
 - Mae prosesau cyfathrebu da, dibynadwy ac amserol â phob un yr effeithir arno drwy gydol proses y gorchymyn prynu gorfodol yn hanfodol er mwyn helpu i leihau ansicrwydd, rhoi cyfle i ennyn ymddiriedaeth a meithrin cydberthnasau gwaith da.
 - Dylai awdurdodau caffael fynd ati'n rhagweithiol i negodi er mwyn penderfynu ar y swm iawndal teg a rhesymol. Os oes anghytundeb ynglŷn â hawliad, dylai awdurdodau caffael esbonio pam a rhannu tystiolaeth â'r hawlydd er mwyn ategu eu safbwynt.
 - Dylai taliadau iawndal (gan gynnwys hawliadau am ffioedd proffesiynol) gael eu talu'n brydlon unwaith y bydd cytundeb gan nad yw'n rhesymol i hawlydd orfod aros.
 - Ar gyfer hawliadau mwy, cymhleth, dylai hawlwyd wneud cais amlinellol yn y lle cyntaf, gan gyflwyno mwy o dystiolaeth i gefnogi'r sefyllfa fanwl pan fydd ar gael ar ffurf ddigonol a digon manwl i alluogi'r awdurdod caffael i gynnal asesiad priodol.
 - Efallai y bydd yn bosibl i'r partiön ddod i gytundeb ar faterion penodol, er enghraifft, gwerth y tir a gymerir fel y gellir talu iawndal am yr elfen honno tra na fydd elfennau eraill o'r hawliad megis taliadau tarfu yn cael eu pennu'n derfynol tan ddyddiad diweddarach. Dylai colledion hawlydd gael eu lliniaru drwy gael rhyw fath o daliad yn gynharach, yn hytrach na gorfod aros nes bod cytundeb ynglŷn â'r mater cyfan.
 - Er mwyn annog defnydd mwy gofalus o bwerau gorchymyn prynu gorfodol, lleihau'r effaith ar y partiön dan sylw a'r lle i ddadlau a fyddai'n arbed amser a chost i'r awdurdod caffael, dylai fod dull o gofnodi perfformiad a chwynion yn erbyn methiant awdurdodau caffael i gadw at arferion gorau.

C2 Ymateb Llywodraeth Cymru

Arferion gorau

Rydym yn bwriadu mabwysiadu'r enghreifftiau o arferion gorau a gyflwynwyd mewn ymateb i Gwestiwn 2 yn y canllawiau.

Byddwn yn ystyried llunio rhestr wirio o arferion gorau yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol. Caiff cyfeiriadau at arferion gorau yn y Llawlyfr eu mewnosod yng Nghylchlythyr 003/2019.

Monitro perfformiad awdurdodau caffael

Drwy wasanaeth rhagwiriio technegol arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol drafft, caiff perfformiad awdurdodau caffael a'r ffordd y maent yn cymhwyso egwyddorion arferion gorau eu monitro. Caiff methiant i fabwysiadu arferion gorau ei godi gyda'r awdurdodau caffael drwy ymatebion i geisiadau am ragwiriadau technegol ar orchmynion prynu gorfodol drafft.

Y camau nesaf

- 4.8 Bwriedir mabwysiadu enghreifftiau o arferion gorau a awgrymwyd gan ymatebwyr yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Caiff Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chylchlythyr 003/2019 a bydd yn cynnwys arferion gorau. Bydd Cylchlythyr 003/2019 yn cyfeirio ar yr arferion gorau yn y Llawlyfr.
- 4.9 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu gwasanaeth rhagwiriio technegol ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol drafft i awdurdodau caffael ei ddefnyddio. Drwy'r gwasanaeth hwn, caiff perfformiad awdurdodau caffael a'r ffordd y maent yn cymhwyso egwyddorion arferion gorau eu monitro fel rhan o ragwiriadau technegol o orchmynion prynu gorfodol drafft.

5. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 3

C3	Ydych chi'n cytuno bod templed y ffurflen hawlio enghreifftiol a ddangosir yn Rhan 1 y Cylchlythyr yn gofyn am yr wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i:(a) hawlio iawndal am dir a gafodd ei gaffael trwy orfodaeth a/neu y cymerwyd meddiant dros dro arno; neu (b) cais am ragdalu iawndal?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig ffurflen enghreifftiol dempled i'w defnyddio gan randdeiliaid wrth gyflwyno ceisiadau am iawndal a cheisiadau am ragdalu iawndal.	

Crynodeb Ystadegol

Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	1	0	1
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	2	0	1
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	0	2	0
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	1	0	2
F	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		10	4	3	7

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	14	3
Cyfanswm y Ganran	82%	18%

Adolygiad ystadegol

- 5.1 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r cynnig ynglŷn â ffurflen hawlio enghreifftiol dempled i'w defnyddio gan randdeiliaid. O'r rhai a ymatebodd, (naill ai 'Ydw', 'Ydw, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw'), cytunodd 82%, ond anghytunodd 18%.
- 5.2 Roedd Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio, Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant oll o blaid y cynnig. Cafwyd gwrthwynebiadau gan un ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall a dau ymatebydd o'r sector Eraill. Nid ymatebodd dau ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, dau ymatebydd o'r sector Grwpiau Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol ac un Awdurdod Cynllunio Lleol i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

5.3 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 3 fel a ganlyn:

- Cefnogaeth i'r ffurflen hawlio enghreifftiol dempled.
- Dylid ei gwneud yn fwy hygyrch.
- Dylai fod modd newid y ffurflen hawlio enghreifftiol dempled mewn amgylchiadau penodol.

Trosolwg

- 5.4 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r ffurflen hawlio enghreifftiol dempled a geir yn Rhan 1. Nododd un ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, a gytunodd fod y ffurflen hawlio enghreifftiol dempled yn cofnodi'r wybodaeth berthnasol, ei bod yn arfer dda mabwysiadu'r ffurflen hawlio enghreifftiol dempled a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU am ei bod yn ddefnyddiol i gynghorwyr sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr.
- 5.5 Nododd un ymatebydd o Awdurdod Cynllunio Lleol ac un ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylai fod modd i awdurdodau caffael newid y ffurflen hawlio enghreifftiol dempled o dan amgylchiadau penodol ond gan sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.
- 5.6 Nododd un ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall y dylid aiddrafftio'r ffurflen hawlio enghreifftiol dempled i'w gwneud yn fwy hygyrch.
- 5.7 Awgrymodd un ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylai'r ffurflen hawlio enghreifftiol dempled ymddangos mewn Atodiad ar wahân i Gylchlythyr 003/2019. Hefyd, dylai awdurdodau caffael fod yn rhagweithiol o ran sicrhau ei bod ar gael i hawlwyr, gan gynnwys sicrhau ei bod ar gael ar ffurf electronig ar wefan yr awdurdod caffael.
- 5.8 Nododd un ymatebydd o'r sector Eraill fod y ffurflen hawlio enghreifftiol dempled yn gofyn am gryn dipyn o wybodaeth gan berchennog y tir a'i bod yn debygol y bydd angen cymorth arbenigol. At hynny, efallai y byddai ffurflen dempled sy'n cynnwys canllawiau plaen a symlach yn ddefnyddiol i berchenogion tir er mwyn iddynt allu deall y cysyniadau dan sylw.
- 5.9 Anghytunodd ymatebydd arall o'r sector Eraill â'r cynnig, gan nodi nad oedd iddo unrhyw werth.

C3 Ymateb Llywodraeth Cymru

Y gallu i addasu'r ffurflen hawlio enghreifftiol dempled

Bydd canllawiau yng Nghylchlythyr 003/2019 yn cynghori y dylai awdurdodau caffael ddefnyddio'r ffurflen hawlio enghreifftiol dempled fel arfer orau. Fodd bynnag, bydd awdurdodau caffael yn gallu newid a/neu fabwysiadu eu ffurflen hawlio enghreifftiol eu hunain yn unol â'u hamgylchiadau. Bydd Cylchlythyr 003/2019 yn cynghori y dylai awdurdodau caffael sy'n ystyried gwneud hyn ddilyn y ffurflen hawlio enghreifftiol dempled lle bynnag y bo modd.

Hygyrchedd y ffurflen hawlio enghreifftiol dempled

Cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol o Gylchlythyr 003/2019, rydym yn bwriadu adolygu'r ffurflen hawlio enghreifftiol dempled er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch, gan gynnwys yr iaith a ddefnyddir.

Caiff y ffurflen hawlio enghreifftiol dempled ei chynnwys mewn Atodiad ar wahân i Gylchlythyr 003/2019 a bydd ar gael i'w lawrlwytho ar ffurf electronig oddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn ystyried llunio canllawiau gan Lywodraeth Cymru mewn iaith glir er mwyn helpu perchenogion tir a phartion yr effeithir arnynt i ddeall y system iawndal, gan gynnwys y gwahanol benawdau hawlio sydd ar gael.

Y camau nesaf

- 5.10 Cynigir y dylid mabwysiadu'r ffurflen hawlio enghreifftiol dempled yng Nghylchlythyr 003/2019 ar ôl adolygu pa mor hygyrch ydyw, gan gynnwys yr iaith a ddefnyddir. Caiff y ffurflen hawlio enghreifftiol dempled ei chynnwys mewn Atodiad ar wahân i Gylchlythyr 003/2019 a bydd ar gael i'w lawrlwytho ar ffurf electronig oddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 5.11 Byddwn yn ystyried llunio canllawiau gan Lywodraeth Cymru mewn iaith glir ar iawndal a'r gwahanol benawdau hawlio sydd ar gael i berchenogion tir a phartion eraill yr effeithir arnynt.

6. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 4

C4	A ydych yn cytuno bod y canllawiau ar bwerau prynu gorfodol yn Rhan 2 o'r Cylchlythyr yn glir? Os nad ydych, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig canllawiau ar bwerau prynu gorfodol galluogi cyffredin a ddefnyddir gan awdurdodau lleol. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn rhoi canllawiau ar bŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir yn orfodol.	

Crynodeb Ystadegol					
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	2	0	1
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	2	2	0
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	1	0	2
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		9	6	3	6

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	15	3
Cyfanswm y Ganran	83%	17%

Adolygiad ystadegol

- 6.1 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod y canllawiau ar bwerau prynu gorfodol galluogi cyffredin a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a geir yn Rhan 2 o'r fersiwn ddrafft o Gylchlythyr 003/2019 yn glir. O'r rhai a ymatebodd, (naill ai 'Ydw', 'Ydw, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw'), cytunodd 83%, ond anghytunodd 16%.
- 6.2 Roedd Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio, Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol oll o blaid y cynnig. Cafwyd gwrthwynebiadau gan un ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall a dau ymatebydd o'r sector Eraill. Nid ymatebodd dau ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant ac un Awdurdod Cynllunio Lleol i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

6.3. Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 4 fel a ganlyn:

- Cafwyd consensws cyffredinol bod y canllawiau yn Rhan 2 yn nodi'n glir ddiben pwerau prynu gorfodol, y ffordd y cânt eu defnyddio a'r cyfyngiadau arnynt o dan bob darn perthnasol o ddeddfwriaeth.
- Cyflwynwyd newidiadau penodol i Ran 2.
- Dylai cynghorau cymuned a thref gael mwy o bwerau.

Trosolwg

- 6.4 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r canllawiau yn Rhan 2. Nododd un ACLI, a gytunodd fod y canllawiau yn Rhan 2 yn glir, eu bod yn cynnwys cyngor manwl, defnyddiol a bod angen i gyfeiriadau at ganol trefi gael eu haddasu a'r angen cynyddol tebygol am orchymyn prynu gorfodol ynghyd â phrawf budd y cyhoedd. Hefyd, roedd yn gadarnhaol gweld cyfeiriad at orchymyn prynu gorfodol at ddibenion hwyluso llwybrau teithio llesol.
- 6.5 Nododd un ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, a gytunodd fod y canllawiau yn Rhan 2 yn glir, fân wallau teipograffyddol ac awgrymodd newidiadau fformatio.
- 6.6 Nododd un Awdurdod Cynllunio Lleol ac un ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall y byddai'n ddefnyddiol pe bai paragraff 1 yn Adran G yn gyson â pharagraff B13 yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24 a'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig. Mae'r iaith a ddefnyddir ym mharagraff 1 yn Adran G yn awgrymu mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff y pŵer o dan adran 47 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ei ddefnyddio, ond mae paragraff B13 yn TAN 24 yn nodi hyn yn fwy eglur yn y testun "*Mae gan Weinidogion Cymru yr un pwerau, ond dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y cânt eu defnyddio*". Cyflwynwyd yr ymateb gan ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall o dan gwestiwn 10. Barnwyd ei bod yn fwy priodol ystyried yr ymateb drwy ddadansoddi'r cwestiwn hwn, o ystyried ei fod yn ymwneud â chanllawiau a geir yn Rhan 2.
- 6.7 Roedd gan rai ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynigion bryderon ynghylch agweddau penodol. Croesawodd un ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y cyngor yn Adran F o Ran 2 ar Ddeddf Priffyrdd 1980 ond nododd y gellid ei wella yn y ffyrdd canlynol:
- (a) Mae'r canllawiau yn gwahaniaethu rhwng gwaith i wella priffordd sy'n bodoli eisoes a gwaith i adeiladu priffordd newydd. Mae'n cydnabod y dylai gorchmynion prynu gorfodol nodi'n glir pa waith sydd dan sylw. Mewn sawl achos, mae'n ymwneud â'r ddau, ac mae cyfle i Gylchlythyr 003/2019 nodi hyn yn gliriach.
 - (b) Mae'r canllawiau yn ceisio cysoni gwaith gwella/adeiladu ag amodau datblygu a ganiateir ym mhob achos. Ystyrir bod hyn yn orsymleiddio ac y dylai ddweud "in most cases" yn y testun Saesneg.

- 6.8 Nododd dau ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall nad yw Adran A o Ran 2 yn cyfeirio o gwbl at gynghorau cymuned a thref pan gyfeirir at faterion sy'n ymwneud â'r gymuned. Hefyd, gall cynghorau cymuned a thref fod yn berchenogion adeiladau yng nghanol trefi (e.e. Neuaddau Tref), manau agored hamdden, a mynwentydd lle y gall pwerau gorchymyn prynu gorfodol ar gyfer gwaith gwella/estyn fod yn ddefnyddiol. Nododd yr ymatebwyr y dylai'r cynnig i roi Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i gynghorau cymuned a thref drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r cyfrifoldeb i gynrychioli llais y gymuned gael ei gynnig yng Nghylchlythyr 003/2019.
- 6.9 Nododd ymatebydd o'r sector Eraill mai ychydig o fesurau cosb sydd ar gael ar hyn o bryd i orfodi ACLlau i dalu iawndal i berchenogion tir o fewn y terfynau amser perthnasol ac y dylai'r canllawiau ymhelaethu ar y pwynt hwn fel mater o arfer orau. Nododd yr ymatebydd yr eglurder pellach sydd ei angen ynghylch y pwyntiau canlynol yn Rhan 2:
- (a) Adran A - Paragraff 2: Nid yw'n nodi'n glir a yw'n dderbyniol i ACLlau werthu tir am swm sy'n fwy na'i werth ar y farchnad os bydd yr amgylchiadau yn caniatáu nac ychwaith yr hyn a ddylai ddigwydd o dan yr amgylchiadau hyn.
 - (b) Adran A - Paragraff 20: Er nad oes rhwymedigaeth ar awdurdod caffael o dan y CDLI i ddangos budd y cyhoedd, mae'n debygol y bydd yn rhaid iddo gyfiawnhau gwro oddi wrth y cynllun datblygu. Bydd ymhelaethu ar y pwynt hwn yn debygol o leihau'r risg o her.
 - (c) Adran B - Paragraff 12: Mae'n cyfeirio at ddefnyddio ymgymeriadau i roi sicrwydd i berchennog tir na fydd gorchymyn prynu gorfodol yn cael ei orfodi oni bai ei bod yn amlwg na fydd yr eiddo yn cael ei ddefnyddio unwaith eto. Nid yw'r geiriad presennol yn nodi'n benodol y bydd angen i'r gorchymyn prynu gorfodol gael ei gadarnhau er mwyn iddo fod yn weithredol. Hefyd, mae'r adran ar frig tudalen 80 yn nodi: "*Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau i gadarnhau gorchymyn prynu gorfodol sy'n ddarostyngedig i amodau o'r fath*". Gellid ymhelaethu ar hyn, yn enwedig o ran swyddogaeth yr ymgymeriadau hyn a pha gamau a fyddai'n cael eu cymryd pe na bai cydymffurfiaeth. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau yn rhoi geiriad enghreifftiol ar gyfer ymgymeriadau, er mwyn annog perchenogion i ailintegreiddio eiddo segur a chyflwyno dull cyson o weithredu.
 - (d) Adran C - Paragraff 16: Mae'n cadarnhau y gall cynghorau cymuned fod yn atebol am gostau. Fodd bynnag, er mwyn i baragraff 17 yn Adran C weithredu'n gywir, mae'n rhaid iddi fod yn glir y bydd y cyngor cymuned yn gallu talu am gostau gorchymyn prynu gorfodol o'i gyllid ei hun. Nid ymddengys y byddai'n gyson i'r ACLI randdiddymu'r gofyniad hwn i'r cyngor cymuned.
 - (e) Adran G - Paragraff 6: Nid yw'n glir o dan ba amgylchiadau y dylai awdurdod priodol hysbysu Gweinidogion Cymru o gais i lys ynadon i herio cyfarwyddyd ynghylch isafswm iawndal. Deallir mai penderfyniad awdurdodau priodol yw cynnwys cyfarwyddyd ynghylch isafswm iawndal mewn gorchymyn prynu gorfodol yn ôl eu disgrisiwn eu hunain ond o dan ba amgylchiadau y byddai trydydd parti yn gwneud cais am orchymyn o'r fath?
- 6.10 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio y gellid rhannu Adran C yn Rhan 2 a thrin y canllawiau ar gynghorau cymuned a thref fel pwnc ar wahân a fyddai'n unol â'r rolau ychwanegol i gynghorau cymuned a gynigir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau.

O ran Adran E yn Rhan 2, nododd yr ymatebydd fod canllawiau manwl yng Nghylchlythyr 2/97 yr Adran Drafndiaeth "*Notes on the Preparation, Drafting and Submission of Compulsory Purchase Orders for Highway Schemes and Car Parks for which the Secretary of State for Transport is the Confirming Authority*". Hefyd, gan fod ymarferwyr sy'n drafftio gorchmynion prynu gorfodol ar gyfer priffyrdd yng Nghymru yn cyfeirio at Gylchlythyr 2/97 yr Adran Drafndiaeth fel canllaw ar bwyntiau drafftio technegol, dylai Cylchlythyr 003/2019 gadarnhau perthnasedd y nodiadau hyn i Gymru neu dylid ystyried eu cynnwys yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol. Haerodd yr ymatebydd nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ganllaw ar Orchmynion Ffyrdd Ymyl na phynciau megis darparu ffordd fynediad breifat newydd a dargyfeirio cyrsiau dŵr mordwyadwy. At hynny, yr unig ganllaw sydd ar gael yw'r hyn a geir yng Nghylchlythyr 1/97 yr Adran Drafndiaeth "*Highways Act 1980: Orders Under Section 14 of the Highways Act 1980 and Opposed Orders Under Section 124 of that Act*" ac yn absenoldeb canllaw gan Lywodraeth Cymru y byddai o gymorth i ymarferwyr gael gwybod beth yw statws a pherthnasedd y canllaw hwn i brosiectau yng Nghymru. Nododd yr ymatebydd newidiadau y dylid eu gwneud i'r canllawiau canlynol yn Rhan 2:

- Adran A - Paragraff 15: gan y bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau, pan gaiff ei ddeddfu, yn disodli pwerau llesiant o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"), naill ai (a) ni ddylid rhoi rhagor o ganllawiau ar ystyr llesiant neu (b) y gellid mewnosod y canllawiau ar Ddeddf 2000, i'r graddau y maent yn berthnasol i gynllunio, yma.
- Adran A - Paragraff 18: nid yw'r frawddeg olaf yn glir o ran ai'r bwriad yw nodi y gallai strategaeth o'r fath fod yn sail dros lunio achos cymhellol er budd y cyhoedd.
- Adran A – Paragraffau 19 – 25: dylai'r canllawiau ym mharagraff 24 ffurfio'r sail dros y canllawiau ar raddfa a natur y sail gynllunio sydd ei hangen i ddangos achos cymhellol cyffredinol. Hefyd, byddai canllawiau yn ddefnyddiol ar y sefyllfa pe câi caniatâd cynllunio sy'n sail i orchymyn prynu gorfodol ei newid ar ôl iddo gael ei gadarnhau gan fod hyn yn tanlinellu pwysigrwydd y disgrifiad ar y cynllun yn y gorchymyn prynu gorfodol sy'n nodi diben y caffaeliad.
- Adran B - Paragraffau 6 a 7: nid yw'n glir beth yw'r cyfiawnhad dros y canllawiau o ran y disgwyliad y dylai datblygiadau tai sy'n defnyddio pwerau gorchmynion prynu gorfodol gael eu cwblhau o fewn tair blynedd i gaffael gan fod dyraniadau mawr ar gyfer tai mewn cynlluniau datblygu yn dangos eu bod fel arfer yn ddatblygiadau sawl cam i'w hadeiladu dros gyfnod estynedig.
- Adran B – Paragraff 20: dylai nodi: (a) mae adran 29 o Ddeddf Tai 1985 ("Deddf 1985") yn ymwneud â chaffael tai ar gyfer staff cyngor, ac mae (b) adran 300 o Ddeddf 1985 yn ymwneud â phrynu eiddo sy'n ddarostyngedig i orchymyn gwahardd y bernir y gellir ei wneud yn gyfanheddol.
- Adran B - Paragraffau 21 i 26: dylai'r pennawd a pharagraff 21 nodi bod Rhan 7 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn god sy'n ymwneud â datgan a gweinyddu Ardaloedd Adnewyddu.
- Adran F - Paragraff 4(d): mae'r disgrifiad o ddarnau newydd o briffordd yn aml yn fwy cymhleth na'r enghraifft a roddir, yn enwedig lle mae ffordd newydd o hyd sylweddol ac yn torri ar draws priffyrdd sy'n bodoli eisoes.
- Adran F - Paragraff 4(f): bydd y gorchymyn prynu gorfodol fel arfer yn nodi diben y caffaeliad i weithredu'r cynllun/gorchymyn ffordd arbennig a byddai'n ddefnyddiol crybwyll mai dim ond os bwriedir i ffordd awdurdod lleol newydd gysylltu â chyffordd newydd drwy ffordd arbennig y byddai cynlluniau ffordd arbennig yn debygol o godi.

- Adran F - Paragraff 5: Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyfeiriad at adran 110 yn ychwanegu bod hyn yn ymwneud â dargyfeirio cyrsiau dŵr, a hefyd pe gallai naill ai Cylchlythyr 003/2019 neu'r Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol fynd i'r afael â dymunoldeb caffael teitl llawn priffyrdd sy'n bodoli eisoes sydd wedi'u cynnwys mewn gorchymyn prynu gorfodol.
- Adran F - Paragraph 11: Byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at y pwerau a roddir gan y darpariaethau a amlinellir yn yr adran hon.
- Adran F - Paragraff 11: yn lle caffael adeilad cyfan, gellir caffael rhan o adeilad yn orfodol a chymryd hawliau i adfer gweddill yr adeilad (gweler Gorchymyn Prynu Gorfodol Cyngor Dinas Casnewydd (Ailddatblygu Sgwâr John Frost) 2006).
- Adran F - Paragraff 13: efallai y byddai'n well ymdrin ag enghreifftiau penodol o hawliau yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol a all gynnig mwy o le i nodi amrywiaeth ehangach o enghreifftiau o hawliau.
- Adran F - Paragraff 18: mae'n arfer orau ymdrin â thir sydd ei angen at ddibenion untro yn y Datganiad o Resymau ond bydd hyn yn newid pan fydd y pwerau i gaffael hawliau dros dro yn cychwyn.
- Adran F - Paragraffau 24 i 28: byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn yn croesgyfeirio at y canllawiau ar ddymunoldeb integreiddio'r broses o osod y seiliau ar gyfer gorchymyn prynu gorfodol â phroses gynllunio gyffredinol prosiect teithio llesol.

6.11 Nododd ymatebydd o'r sector Eraill, a anghytunodd fod y canllawiau yn Rhan 2 yn glir, na ddylid dibynnu o gwbl ar CDLI a oedd yn cael ei ddatblygu, nad oedd ymgynghoriad wedi'i gynnal yn ei gylch ac na chadarnhawyd ei fod yn gadarn nes ei fod wedi'i fabwysiadu gan ACLI. Awgrymodd yr ymatebydd y dylid gwneud newidiadau i'r canllawiau canlynol yn Rhan 2:

- Adran A - Paragraff 7: Dylid rhoi "an adopted development plan" yn y testun Saesneg yn lle "a development plan" gan na ddylid rhoi unrhyw goel ar gynllun datblygu sy'n cael ei ddatblygu.
- Adran A - Paragraff 10: Mae "i ymateb yn well i anghenion ei gymuned" yn awgrymu bod yr awdurdod lleol yn gwybod beth yw anghenion y gymuned. Gellir cadarnhau hyn drwy roi sylw i ganlyniadau unrhyw ymgynghoriad â chymunedau.
- Adran A - Paragraff 11: Gallai'r paragraff hwn alluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio pŵer adran 226(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i oresgyn gwrthwynebiad lleol i dai. Ystyrir mai dim ond ar ôl ymgynghori'n llawn â'r gymuned ac ar ôl i'r gymuned gydsynio y dylid arfer y pŵer hwn. Dylid mewnosod y geiriau "and the community" ar ôl "and their partners" yn y testun Saesneg.
- Adran A - Paragraff 12: Er mwyn adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylid ychwanegu "All decisions should comply with the principles of the WCFG Act before being taken further" at ddiwedd y paragraff yn y testun Saesneg.
- Adran A - Paragraff 13: dylid mewnosod "after meaningful consultation with the local communities on the overarching benefits from the proposals to the area and can provide a solid foundation for the overall wellbeing of their area so that it responds directly to local, regional and national issues." ar ôl "well-being" yn llinell 5 yn y testun Saesneg."
- Adran A - Paragraff 18(c): Dylai'r llinell olaf yn y testun Saesneg ddarllen "This could contribute to the....." yn hytrach na "This could contribution".
- Adran A - Paragraff 20: Mae angen gwneud y frawddeg gyntaf yn fwy eglur gan fod dyletswydd ar bob ACLI o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i baratoi CDLI.

- Adran A - Paragraff 22: Dylai'r frawddeg olaf o "Likewise" ymlaen gael ei dileu yn y testun Saesneg gan na ddylid rhoi unrhyw ystyriaeth i gynllun datblygu sy'n cael ei ddatblygu.
- Adran A - Paragraff 23: Dylai'r paragraff hwn gael ei ddileu gan na ddylid rhoi unrhyw goel ar CDLI sy'n cael ei ddatblygu ar gam "pan fetho popeth arall".
- Adran A - Paragraff 24: Dylai'r paragraff hwn gael ei ddileu - os nad oes diben clir, yna ni ddylid caniatáu caffaeliad.
- Adran A - Paragraff 26(a): Dylid rhoi atalnod llawn ar ôl "area" yn llinell 3 yn y testun Saesneg a dileu "or, where no such up to date development plan exists, with the draft development plan."
- Adran A - Paragraff 26(d): Er bod hyfyrwedd yn chwarae rhan mewn penderfyniadau o'r fath, ni ddylid caniatáu iddo lywio'r datblygiad pan fydd yn groes i ddarpariaethau PCC.
- Adran B - Paragraff 15: dylid dileu "in" cyn "included" yn y llinell gyntaf yn y testun Saesneg a rhoi "decides clearance is the best path to follow" yn lle "favours".
- Adran B - Paragraff 16: dylid rhoi "decides to retain" yn lle "favours retaining" yn y testun Saesneg.
- Adran F - Paragraff 13 mae'r gair "meter" yn y testun Saesneg wedi'i gamsillafu.
- Adran F - Paragraff 27: Dylid rhoi "accept" yn lle "favour" yn y testun Saesneg.

6.12 Nid oedd un ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall yn cytuno bod y canllawiau yn Rhan 2 yn glir, gan nodi y dylid gwella'r iaith er mwyn gwneud y canllawiau'n haws i'w deall.

6.13 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Eraill nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C4 Ymateb Llywodraeth Cymru

Newidiadau penodol i Ran 2

Byddwn yn ystyried newid y canllawiau canlynol yn Rhan 2 yn unol â sylwadau ymatebwyr:

- Adran A - Paragraffau 10 i 13
- Adran A - Paragraff 15
- Adran A - Paragraffau 18 i 25
- Adran A - Paragraff 26
- Adran B - Paragraffau 6 i 7
- Adran B - Paragraffau 15 i 16
- Adran B - Paragraffau 20 i 26
- Adran F - Paragraffau 4 i 5
- Adran F - Paragraff 11
- Adran F - Paragraff 13
- Adran F - Paragraff 18
- Adran F - Paragraffau 24 i 28

Cysondeb â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24

Mae paragraff B13 o TAN 24 yn cyfeirio at gyflwyno hysbysiadau trwsio yn hytrach na phrynu gorfodol. Ymdrinnir â hyn ym mharagraff B14 o TAN 24.

Mae cyflwyno hysbysiadau trwsio ac awdurdodi prynu gorfodol yn weithdrefnau ar wahân. Hynny yw, er mwyn dangos y cyfiawnhad er budd y cyhoedd dros brynu adeilad rhestredig yn orfodol, mae'n ofynnol cyflwyno hysbysiad trwsio yn y lle cyntaf.

Mae'r term "amgylchiadau eithriadol" ym mharagraff b13 o TAN 24 yn canolbwyntio ar yr amgylchiadau lle y byddai Gweinidogion Cymru yn cyflwyno hysbysiadau trwsio yn hytrach nag awdurdodi gorchymyn prynu gorfodol ACLI ar gyfer adeilad rhestredig. Caiff adolygiad o baragraff 1 yn Adran G o Ran 2 ei gynnal er mwyn atgynhyrchu adran 47 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gywir.

Byddwn yn mewnosod cyfeiriad at brawf achos cymhellol ym mharagraff 1 yn Adran G ac yn dileu "mewn amgylchiadau eithriadol" er mwyn gwneud y canllawiau'n fwy eglur.

Adran F o Ran 2: Deddf Priffyrdd 1980

Caiff y canllawiau yn Adran F o Ran 2 eu hadolygu er mwyn ei gwneud yn eglur:

- (a) y dylai gorchymynion prynu gorfodol nodi'n glir a yw cynllun caffael yn cynnwys gwaith i wella priffordd sy'n bodoli eisoes a gwaith i adeiladu priffordd newydd fel ei gilydd.
- (b) y bydd y meini prawf i gadarnhau a yw gorchymyn prynu gorfodol yn ymwneud ag adeiladu priffordd newydd neu wella priffordd sy'n bodoli eisoes, a nodwyd yng ngeiriad Rhan 13 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, yn gymwys yn y rhan fwyaf o achosion.

Byddwn yn ystyried cynnwys cyngor technegol Cylchlythyr 1/97 a 2/97 yr Adran Drafnidiaeth yn y Llawlyfr ar Orchymynion Prynu Gorfodol. Hefyd, byddwn yn ystyried newid y canllawiau yn Adran F o Ran 2 i gyfeirio at Gylchlythyr 1/97 a 2/97 yr Adran Drafnidiaeth neu'r cyngor technegol a geir yn y Llawlyfr ar Orchymynion Prynu Gorfodol.

Cynghorau cymuned a thref

Caiff Adran A yn Rhan 2 ei diwygio er mwyn cyfeirio at gynghorau cymuned a thref pan gyfeirir at faterion sy'n ymwneud â'r gymuned.

Rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed ar estyn y gweithgareddau y gall awdurdodau lleol wneud gorchymynion prynu gorfodol yn eu cylch ar ran Cynghorau cymuned a thref o dan y darpariaethau amrywiol yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972").

Mae adran 125 o Ddeddf 1972 yn darparu pŵer cyffredinol i awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol) ar ran Cynghorau cymuned a thref na allant brynu drwy gytundeb, dir sydd ei angen at ddiben swyddogaeth statudol.

Fel yn achos y pŵer cyffredinol i brynu'n orfodol yn adran 121 o Ddeddf 1972, dylai adran 125 (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol) gael ei defnyddio gan awdurdodau lleol ar y cyd â phwerau galluogi eraill (h.y. adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ("Deddf 1976") i gaffael tir yn orfodol at y dibenion a nodwyd, h.y. cyfleusterau hamdden yn achos adran 19 o Ddeddf 1976.

Er mwyn ehangu at ba ddibenion y gall awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol) ar ran cynghorau cymuned a thref, byddai angen diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i swyddogaethau statudol cynghorau cymuned a thref yn gyntaf. Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn ceisio cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol a fyddai'n caniatáu i gynghorau cymuned a thref sy'n gymwys i wneud unrhyw beth, cyhyd â'u bod yn gweithredu'n rhesymegol, heblaw am y gweithgareddau hynny a waherddir yn benodol gan ddeddfwriaeth arall. Efallai y bydd Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol newydd ar gyfer cynghorau cymuned a thref sy'n gymwys yn gyfrwng deddfwriaethol priodol.

Byddwn yn monitro hynt y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau ac yn diweddarau'r canllawiau yn Adran C o Ran 2 os yw hynny'n briodol. Gall hyn gynnwys gwahanu'r canllawiau ar gynghorau cymuned a thref yn unol â'r rolau ychwanegol i gynghorau cymuned fel y'u cynigiwyd yn y Bil hwnnw. Byddwn yn ystyried a oes angen deddfwriaeth bellach i ehangu at ba ddibenion y gall awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol ar ran cynghorau cymuned a thref.

Mewn perthynas â'r canllawiau yn Adran C o Ran 2 ar ba bryd y gall cyngor cymuned neu dref ddod yn atebol am gostau o ganlyniad i orchymyn prynu gorfodol sy'n cael ei wneud ar ei ran gan awdurdod lleol a'i gadarnhau. Dim ond ar ôl cael cais gan gyngor cymuned neu dref y bydd awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau prynu gorfodol. O dan yr amgylchiadau hynny, mae ond yn deg ac yn rhesymol bod yr awdurdod lleol yn adennill ei gostau ac mai'r cyngor cymuned neu dref perthnasol fyddai'n atebol am y costau hynny fel hyrwyddwr y gorchymyn prynu gorfodol.

Cynlluniau datblygu

Caiff paragraff 20 yn Adran A o Ran 2 ei adolygu er mwyn ei gwneud yn glir, os nad yw cynllun caffael awdurdod caffael yn unol â chynllun datblygu'r ardal, y bydd angen cyfiawnhau unrhyw wriad.

Mae cyngor ynglŷn ag ystyried cynlluniau datblygu sy'n cael eu datblygu neu gynlluniau datblygu nad ydynt yn gyfredol mwyach wedi'i gynnwys ym Mhennod 7 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ac mae'n dal i fod yn gyfredol. Felly, rydym yn gwrthod ceisiadau am i'r paragraffau canlynol yn Atodiad A o Ran 2 yng Nghylchlythyr 003/2019 gael eu newid:

- Paragraff 7;
- Paragraffau 22 a 23;
- Paragraff 26(a).

Prisiau prynu sy'n fwy na'r gwerth ar y farchnad

Byddwn yn cyhoeddi Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol ochr yn ochr â Chylchlythyr 003/2019 i roi arferion gorau. Caiff hyperddolenni eu mewnosod yng Nghylchlythyr 003/2019 i gyfeiro at yr arferion gorau a geir yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol. Byddwn yn ystyried cynnwys cyfeiriad yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol at yr arfer o sicrhau gwerth gorau am arian cyhoeddus drwy gaffael drwy gytundebau sy'n fwy na'r gwerth ar y farchnad ond sy'n is na chost derfynol caffael drwy orchymyn prynu gorfodol.

Awdurdod caffael sy'n ymrwymo i beidio â gweithredu gorchymyn prynu gorfodol

Caiff y canllawiau ym mharagraff 12 yn Adran B o Ran 2 ar ddefnyddio ymrwymadau gan awdurdodau lleol i beidio â gweithredu gorchymynion prynu gorfodol eu hadolygu er mwyn sicrhau cysondeb â pholisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â chefnogi awdurdodau lleol sy'n sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto drwy wneud mwy o ddefnydd o bwerau gorfodi megis gorchymynion prynu gorfodol.

Cyfarwyddyd i roi isafswm iawndal mewn gorchymyn prynu gorfodol

Byddwn yn ystyried gwneud y canllawiau ym mharagraff 6 yn Adran G o Ran 2 yn fwy eglur o ran o dan ba amgylchiadau y dylai awdurdod priodol hysbysu Gweinidogion Cymru o gais i lys ynadon i herio cyfarwyddyd i roi isafswm iawndal.

Nid oes gan drydydd partïon yr hawl statudol i wneud gorchymyn prynu gorfodol. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw ddarpariaeth iddynt wneud cyfarwyddyd i roi isafswm iawndal o dan yr amgylchiadau lle y gadawyd i gyflwr adeilad rhestredig fynd yn wael yn fwriadol.

ygyrchedd y canllawiau

Byddwn yn cynnal adolygiad o Ran 2 er mwyn gwella hygyrchedd y canllawiau.

Gweithredu gorchymyn prynu gorfodol

Ym mharagraff 24 yn Adran A o Ran 2, mae'r canllawiau yn awgrymu na fyddai'n ddichonadwy nac yn synhwyrol o bosibl aros nes bod manylion llawn cynllun caffael wedi'u cadarnhau, a nes bod caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau, cyn bod awdurdod caffael yn gweithredu gorchymyn prynu gorfodol. Mae hyn yn berthnasol mewn achosion lle mae angen dybryd i gymryd camau brys, h.y. dymchwel adeilad peryglus ac efallai na fydd yn synhwyrol aros nes bod caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau. Yn y sefyllfa hon, byddai angen o hyd i'r ACLI ddangos yr achos cymhellol er budd y cyhoedd er mwyn i'r gorchymyn prynu gorfodol fod yn llwyddiannus.

Y camau nesaf

- 6.14 ynigir y dylid mabwysiadu'r canllawiau yn Rhan 2 yn y fersiwn derfynol o Gylchlythyr 003/2019 yn amodol ar y newidiadau a gynigir gan ymatebwyr a dderbyniwn (gweler ymateb Llywodraeth Cymru uchod).
- 6.15 Byddwn yn adolygu paragraff 12 yn Adran B o Ran 2 er mwyn sicrhau cysondeb â pholisi Llywodraeth Cymru sy'n chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto drwy wneud mwy o ddefnydd o bwerau gorfodi megis gorchymynion prynu gorfodol.

7. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 5

C5	A ydych yn cytuno bod y materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â gorchmynion prynu gorfodol wedi'u nodi'n glir yn Rhan 3 o'r Cylchlythyr? Os nad ydych, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig canllawiau ar faterion gweithdrefnol cyffredin y mae'n rhaid i awdurdod caffael eu hystyried wrth wneud gorchmyn prynu gorfodol.	

Crynodeb Ystadegol					
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	0	0	2
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	3	0
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	1	0	2
F	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		11	1	4	8

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	12	4
Cyfanswm y Ganran	75%	25%

Adolygiad ystadegol

- 7.1 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod y canllawiau ar faterion gweithdrefnol cyffredin a geir yn Rhan 3 o'r fersiwn ddrafft o Gylchlythyr 003/2019 yn glir. O'r rhai a ymatebodd, (naill ai 'Ydw', 'Ydw, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw'), cytunodd 75%, ond anghytunodd 25%.
- 7.2 Roedd Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio, Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill a Chyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant oll o blaid y cynnig. Cafwyd gwrthwynebiadau gan un ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall a thri ymatebydd o'r sector Eraill. Nid ymatebodd dau ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, dau ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant ac un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

7.3 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 5 fel a ganlyn:

- Cafwyd consensws cyffredinol bod y canllawiau yn Rhan 3 sy'n nodi'r materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â gorchmynion prynu gorfodol yn glir.
- Cynigiwyd newidiadau penodol i Ran 3.

Trosolwg

- 7.4 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r canllawiau yn Rhan 3. Nododd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, a gytunodd fod y canllawiau yn Rhan 3 yn glir, fod y canllawiau'n ddefnyddiol yn ei farn ef. Tynnodd yr ymatebydd sylw at fân wallau teipograffyddol ac awgrymodd newidiadau fformatio.
- 7.5 Dywedodd ymatebydd arall o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, a gytunodd fod y canllawiau yn Rhan 3 yn glir, y gellid rhoi rhagor o ganllawiau manwl ar bwerau meddiannu Deddf Tai a Chynllunio 2016. At hynny, byddai'n fuddiol i awdurdodau caffael pe baent yn cael mwy o ganllawiau ar y ffordd y dylent ddefnyddio bwerau o'r fath.
- 7.6 Anghytunodd ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall fod y canllawiau yn Rhan 3 yn glir oherwydd yr iaith a ddefnyddiwyd.
- 7.7 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Eraill, a anghytunodd fod y canllawiau yn Rhan 3 yn glir, y byddai diagram yn ddefnyddiol i amlinellu'r terfynau amser sydd ynghlwm wrth Dystysgrif Datblygu Arall Priodol. Hefyd, dylai nodi'n glir beth yw buddiannau cael Tystysgrif Datblygu Arall Priodol â dim canlyniad.
- 7.8 Nododd ymatebydd o'r sector Eraill, a anghytunodd fod y canllawiau yn Rhan 3 yn glir, na ddylid rhoi unrhyw bwyslais ar CDLI nad oedd wedi'i fabwysiadu. Hefyd, dylai copiau o'r holl ddogfennaeth mewn cysylltiad â gorchymyn prynu gorfodol ymddangos ar ran benodol o'r porth cynllunio fel y gall pob parti dan sylw a'r cyhoedd ystyried eu hawliau i wrthwynebu. At hynny, mae llawer o bobl yn cael gafael ar wybodaeth ar-lein ac nid ydynt yn darllen papur newydd. Awgrymodd yr ymatebydd y dylid gwneud newidiadau i'r canllawiau canlynol yn Rhan 3:
- Adran I - Paragraff 11: ar ôl "section 78", ymddengys nad yw "to" yn y testun Saesneg yn ymwneud â'r testun.
 - Adran I - Paragraff 29: Dylai'r geiriau "Meaning of "the Public" in regard to exchange land" yn y testun Saesneg fod mewn ffont italig a dylid dileu'r "the" cyntaf.
 - Adran I - Paragraff 31: yn llinell chwech ar ôl "open space" yn y testun Saesneg ond cyn yr hanner colon, dylid mewnosod "and the local authority wish to retain the same as an open space for the benefit of the public".
 - Adran U: bwriedir i'r ffurflen gael ei llofnodi gan Clerc y Dref/Clerc y Cyngor Sir ond caiff y mwyafrif o orchmynion prynu gorfodol, os nad pob un, eu llofnodi gan Brif Swyddogion Gweithredol. Dylid gadael lle gwag yn y rhan hon o'r ffurflen er mwyn i ddisgrifiad o'r swyddog sy'n ei llofnodi gael ei ychwanegu.
- 7.9 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cynnwys yn Rhan 3 yn cael ei drefnu mewn ffordd arall, h.y.
- Mae Adrannau I, J, K ac N yn fwy perthnasol i'r canllawiau yn Rhan 2
 - Mae Adrannau L ac M yn rhan ar wahân sy'n ymdrin â "Gweithdrefnau sy'n ategu Hawliadau am lawndal".

- Gellid ailenwi Adran P yn “Guidance on drafting and serving the order and associated applications” yn y testun Saesneg.
- Gellid uno Adrannau R ac S.
- Mae'r adrannau eraill yn Rhan 3 yn ymffurfio'n rhesymol yn adran sy'n ymdrin â "Materion Gweithdrefnol a Drafftio".

Nododd yr ymatebydd y dylid ystyried arferion gorau o ran gwneud penderfyniadau ar y pŵer i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill am ei bod yn bosibl y caiff yr hawliau hyn eu harfer heb fod proses gorchymyn prynu gorfodol ffurfiol. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol pe bai canllawiau ychwanegol ar gyflwyno hysbysiadau a ffurf yr hysbysiad i'r wasg yn cael eu hychwanegu. Awgrymodd yr ymatebydd y dylid gwneud newidiadau i'r canllawiau canlynol yn Rhan 3:

- Adran I - Paragraff 1: dylid disgrifio hyn fel “additional protection” yn y testun Saesneg yn yr ystyr bod y darpariaethau hyn yn ychwanegol at yr hawl i wrthwynebu a herio sydd gan bob perchennog.
- Adran I - Paragraff 5: ymddengys fod rhai gwallau gramadegol yn y testun Saesneg yn yr enghraifft am gludwr nwy.
- Adran I - Paragraff 7: byddai rhestr gyfredol o Weinidogion Cymru ac adrannau Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb goruchwyllo/gweithredol yn ddefnyddiol.
- Adran I - Paragraff 9: dylid amlinellu natur y darpariaethau y cyfeirir atynt yn adran 31(1) o Ddeddf 1981 er mwyn esbonio sail y polisi dros y mathau o orchymyn prynu gorfodol sy'n gallu mynd rhagddynt os bydd cadarnhad ar y cyd, er nad oes tystysgrif adran 16.
- Adran I - Paragraffau 18 i 26: byddai'n ddefnyddiol pe bai'r llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn ystyried awgrymu fformat anstatudol enghreifftiol ar gyfer cyflwyno cais am dystysgrif o dan adran 19.
- Adran I - Paragraff 33: byddai'n ddefnyddiol nodi pa gaffaeliadau y mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys iddynt, os o gwbl.
- Adran J - Paragraffau 7 i 8: dylid rhoi'r canllawiau ar ddrafftio darpariaethau ynglŷn â hawliau newydd yn Adran P a dylai awdurdodau caffael, wrth ddrafftio hawliau newydd, fabwysiadu'r un manylder ag a ddefnyddir wrth ddrafftio telerau hawddfreintiau a hawliau mewn cysylltiad â thrafodion eiddo. Hefyd, dylid ceisio cyngor cyfreithiol ar ddrafftio hawliau newydd.
- Adran K - Paragraff 4: mae'r pwynt bwled olaf yn ymddangos fel pennawd.
- Adran K - Paragraff 7: byddai'n well pe bai'r canllawiau yn cael eu rhoi yn Adran P a bod cyfeiriad atynt yma.
- Adran P - Paragraff 2: dylid tynnu sylw at y pwerau penodol niferus a geir yn Neddf Priffyrdd 1980.
- Adran P - Paragraffau 5 i 8: dylid cynnwys canllawiau ar fwynau a'r rheolau cyffredinol ynglŷn â'r angen am gaffaeliad penodol o dan Adran I a dylid ychwanegu croesgyfeiriad at y canllawiau ar y broses ei hun o ddrafftio'r darpariaethau sy'n cymhwyso'r Cod Mwynau.
- Adran P - Paragraff 16: Byddai'n ddefnyddiol ymhelaethu ar y canllawiau drwy ymdrin â phwysigrwydd caffael teitl boddhaol lle y bwriedir trosglwyddo'r tir i drydydd partïon i'w ddatblygu, sy'n digwydd yn aml o dan orchmynion prynu gorfodol ym maes cynllunio a thai.
- Adran P - Paragraff 18: gellid cyflwyno'r canllawiau mewn is-baragraffau (a) i (p) ar ffurf tabl yn nhrefn y wyddor.
- Adran P - Paragraff 27: byddai'n ddefnyddiol atgoffa awdurdodau caffael, os mai un o ddibenion y gorchymyn prynu gorfodol yw gweithredu offeryn arall, yna y dylai'r offeryn hwnnw gael ei selio'n gyntaf, e.e. os mai un o ddibenion gorchymyn prynu gorfodol priffyrdd neu gynllunio yw gweithredu Gorchymyn Ffyrdd Ymyl.

- Adran Q - Paragraph 4: mae llawer o awdurdodau caffael yn nodi mapiau gorchymyn prynu gorfodol drwy atodi ôl y sel arnynt, yn ogystal â'r sel ar y Gorchymyn ei hun.

7.10 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Eraill nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C5 Ymateb Llywodraeth Cymru

Newidiadau penodol i Ran 3

Byddwn yn ystyried newid y canllawiau canlynol yn Rhan 3 yn unol â sylwadau ymatebwyr:

- Adran I - Paragraff 1
- Adran I - Paragraff 5
- Adran I - Paragraff 7
- Adran I - Paragraff 9
- Adran I - Paragraff 11
- Adran I - Paragraffau 18 i 26
- Adran I - Paragraff 29
- Adran I - Paragraff 31
- Adran I - Paragraff 33
- Adran J - Paragraffau 7 i 8
- Adran K - Paragraff 4
- Adran K - Paragraff 7
- Adran L - paragraff 11
- Adran P - Paragraff 2
- Adran P - Paragraffau 5 i 8
- Adran P - Paragraff 16
- Adran P - Paragraff 18
- Adran P - Paragraff 27
- Adran Q - Paragraph 4
- Adran U

Byddwn hefyd yn ystyried trefnu'r cynnwys yn Rhan 3 mewn ffordd wahanol yn unol â sylwadau ymatebwyr.

Pwerau meddiannu Deddf Tai a Chynllunio 2016

Byddwn yn ystyried adolygu Rhan 3 er mwyn rhoi canllawiau manylach ar bwerau meddiannu canlynol Deddf Tai a Chynllunio 2016 a'r ffordd y dylai awdurdodau caffael ddefnyddio pwerau o'r fath:

- niwed sylweddol,
- trechu hawddfrentiau, a
- hawliau eraill.

Byddwn hefyd yn ystyried cynnwys arferion gorau yn Rhan 3 ynglŷn â gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r pŵer i drechu hawddfrentiau a hawliau eraill.

Hygyrchedd y canllawiau

Caiff adolygiad o Ran 3 ei gynnwys er mwyn gwneud y canllawiau'n fwy hygyrch.

Adran L: Tystysgrif Datblygu Arall Priodol

Byddwn yn ystyried mewnosod diagram yn Adran L yn Rhan 3 er mwyn amlinellu'r terfynau amser sy'n gysylltiedig â rhoi Tystysgrif Datblygu Arall Priodol. Hefyd, byddwn yn rhoi rhagor o ganllawiau ar fanteision cael Tystysgrif Datblygu Arall Priodol â dim canlyniad.

Cynlluniau datblygu

Mae cyngor ar ystyried cynlluniau datblygu sy'n cael eu datblygu neu gynlluniau datblygu nad ydynt yn gyfredol mwyach wedi'i gynnwys ym Mhennod 7 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ac felly mae'n dal i fod yn gyfredol. Felly, rydym yn gwrthod y cais am i'r canllawiau yn Rhan 3 o Gylchlythyr 03/2019 gael eu newid o ran hyn.

Copiâu electronig o ddogfennaeth a hysbysiadau sy'n gysylltiedig â gorchymyn prynu gorfodol

Nodir y gofyniad i gyhoeddi dogfennaeth a hysbysiadau mewn cysylltiad â gorchymyn prynu gorfodol mewn darpariaethau o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981"). Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y dylid newid y darpariaethau hynny a byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau o'r fath gael eu gwneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Caiff y broses o foderneiddio'r gofynion o ran hysbysiadau a chyhoedduswydd o dan Ddeddf 1981 ei hystyried o dan ddiwygiadau i'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn y dyfodol.

Cyflwyno hysbysiadau, gan gynnwys hysbysiadau i'r wasg

Byddwn yn ystyried mewnosod canllawiau ychwanegol yn Rhan 3 ar gyflwyno hysbysiadau a ffurf hysbysiadau i'r wasg sy'n hysbysebu gorchymyn prynu gorfodol.

Rhestr o Weinidogion Cymru ac adrannau Llywodraeth Cymru

Caiff hyperddolen ei gynnwys yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol i dudaden we Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys y rhestr o Weinidogion Cymru a'u cyfrifoldebau.

Fformat anstatudol enghreifftiol ar gyfer cais am dystysgrif o dan adran 19

Byddwn yn ystyried fformat priodol ffurflen anstatudol enghreifftiol ar gyfer cais am dystysgrif o dan adran 19. Caiff y broses o foderneiddio'r weithdrefn i wneud cais am dystysgrif o dan adran 19 ei hystyried o dan ddiwygiadau i'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn y dyfodol.

Y camau nesaf

- 7.11 Cynigir y dylid mabwysiadu'r canllawiau yn Rhan 3 yn y fersiwn derfynol o Gylchlythyr 003/2019 yn amodol ar y newidiadau a gynigir gan ymatebwyr a dderbyniwn (gweler ymateb Llywodraeth Cymru uchod).
- 7.12 Byddwn yn ystyried moderneiddio'r canlynol:
- (a) gofynion o ran hysbysiadau a chyhoedduswydd
 - (b) y weithdrefn i wneud cais am dystysgrif o dan adran 19
- o dan Ddeddf 1981. Byddwn yn gweithredu ar hyn o dan ddiwygiadau i'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn y dyfodol.

8. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 6

C6	A ydych yn cytuno bod y trosolwg o'r broses prynu gorfodol ar gyfer gorchymynion prynu gorfodol anweinidogol yn Rhan 4 o'r Cylchlythyr yn glir i awdurdodau sy'n caffael a gwrthwynebwy'r sy'n weddill? Os nad ydych, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid rhoi trosolwg o'r broses gorchymyn prynu gorfodol ar gyfer gorchymyn prynu gorfodol anweinidogol ar ffurf diagram.	

Crynodeb Ystadegol					
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	0	0	2
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	2	1
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	1	0	3
F	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	1
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		10	1	3	10

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	11	3
Cyfanswm y Ganran	79%	21%

Adolygiad ystadegol

- 8.1 Cafwyd rhaniad cyfartal bron rhwng ymatebwyr na wnaethant ateb y cwestiwn ac ymatebwyr a gytunodd fod y trosolwg o'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn Rhan 4 o'r fersiwn ddrafft o Gylchlythyr 003/2019 yn glir. O'r rhai a atebodd (naill ai 'Ydw', 'Ydw, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw'), cytunodd 79%, ond anghytunodd 21%.
- 8.2 Roedd Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio, Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill a Chyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant oll o blaid y cynnig. Cafwyd gwrthwynebiadau gan un ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall a dau ymatebydd o'r sector Eraill.

Ni chafwyd ymateb gan dri ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, dau ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, un Awdurdod Cynllunio Lleol, un ymatebydd o'r sector Eraill ac un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu Allweddol

8.3 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 6 fel a ganlyn:

- Mae'r trosolwg o'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn ddefnyddiol.
- Mae'r trosolwg o'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn syml.

Trosolwg

8.4 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r trosolwg o'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn Rhan 4. Nododd un ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, a gytunodd fod Rhan 4 yn glir, y byddai'n ddefnyddiol pe bai croesgyfeiriad at y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn cael ei ychwanegu. Yn benodol, o ran paratoi gorchymyn prynu gorfodol cyn ei gyflwyno. Hefyd, dylai Ffigur 3 yn Rhan 4 gynnwys cyfeiriad at y gofyniad i wneud rhagdaliadau ar adeg meddiannu.

8.5 Nododd un ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall y gallai'r iaith yn Rhan 4 fod yn gliriach.

8.6 Haerodd ymatebydd arall o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant nad oedd yn glir sut roedd cyfeiriad at 'Cynllun i'w atal gan broblemau cynllunio?' yn Ffigur 3 yn Rhan 4 yn cydweddu fel cam o'r broses.

8.7 Awgrymodd un ymatebydd o'r sector Eraill y dylid gosod Ffigurau 1 - 3 yn gynharach yn y canllawiau a chodwyd y pwyntiau canlynol ar Ran 4:

- Ffigur 1: beth yw perthnasedd y blychau ymyl "Ystyried Cynllunio" a "Rhaglen Gaffael"?
- Ffigur 1: nid yw'r ddau flwch sy'n dilyn "Gwrthwynebiadau: I'w hystyried drwy ymchwiliad" yn ddigon manwl i fod yn ddefnyddiol;
- Ffigur 1: nid yw'n glir beth yw'r gwahaniaeth os cynhelir cyfarfod cyn yr ymchwiliad;
- Ffigurau 1 a 2: ceir geiriad sy'n cyfeirio at "A: Awdurdod"; a
- Ffigur 3: beth yw perthnasedd y blwch "Cynllun i'w atal gan broblemau cynllunio"? Os yw'r cynllun "i'w atal", yna ni ddylid hyd yn oed wneud y gorchymyn.

8.8 Nododd un ACLI nad oedd y fersiwn o "*Atodiad A - Cylchlythyr 003_2019 drafft ar Brynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru 2019)*", sef dogfen a lanlwythwyd ar wefan Llywodraeth Leol ar ddyddiad lansio'r ymgynghoriad yn cynnwys y Rhan 4 gywir. Hynny yw, roedd y trosolwg o'r broses gorchymyn prynu gorfodol ar goll ac roedd 'Rheolau Crichel Down' yn ffurfio Rhan 4.

8.9 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Eraill nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C6 Ymateb Llywodraeth Cymru

Newidiadau i'r trosolwg o'r broses gorchymyn prynu gorfodol

Caiff Rhan 4 ei newid i gynnwys cyfeiriad at ganllawiau technegol yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol, yn benodol ar baratoi gorchymynion prynu gorfodol cyn eu cyflwyno. Caiff cyfeiriad ei fewnosod yn Ffigur 3 at y gofyniad i wneud rhagdaliadau ar adeg meddiannu. Caiff Ffigur 3 ei adolygu hefyd i ystyried sut mae'r blwch sy'n dwyn y teitl "Cynllun i'w atal gan broblemau cynllunio" yn cydweddu fel cam o'r broses.

Caiff yr iaith a ddefnyddir yn Rhan 4 ei hadolygu gyda'r nod o'i gwneud yn haws ei deall cyn cyhoeddi Cylchlythyr 003/2019.

Awgrymwyd y dylai Ffigurau 1 i 3 gael eu rhoi'n gynharach yn y Cylchlythyr er mwyn helpu'r rhai nad ydynt yn weithwyr proffesiynol i'w deall. Caiff hyperddolenni i Ffigurau 1- 3 eu mewnosod yng Nghylchlythyr 003/2019 er mwyn gwella'r croesgyfeiriadau. Drwy hyn, gall defnyddwyr gael eu cyfeirio at y Ffigur perthnasol a bydd yn helpu i leihau dyblygu yn y canllawiau.

Codwyd ymholiad ynglŷn â pherthnasedd y blychau ymyl "Ystyried Cynllunio" a "Rhaglen Gaffael" yn Ffigur 1. Mae'r blychau hyn yn amlinellu'r gweithgareddau y dylai awdurdodau caffael ymgymryd â nhw, ochr yn ochr â gwneud gorchymyn prynu gorfodol ac nad ydynt yn rhan o'r broses prynu gorfodol statudol. Er eu bod yn weithgareddau ar wahân i'r broses gorchymyn prynu gorfodol, maent yn gysylltiedig â'r cyfiawnhad dros orchymyn prynu gorfodol a llwyddiant cynllun caffael tir yn y pen draw. Bydd y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn rhoi canllawiau technegol manwl ar yr agweddau hyn a chaiff cyfeiriad atynt ei fewnosod yn Rhan 4.

Gwnaed sylw nad yw'r ddau flwch yn dilyn "Gwrthwynebiadau: I'w hystyried drwy ymchwiliad" yn Ffigur 1 yn ddigon manwl i fod yn ddefnyddiol. Byddwn yn ystyried ehangu'r canllawiau yn y ddau flwch canlynol yn Ffigur 1:

- (a) "Gwrthwynebiadau: I'w hystyried drwy ymchwiliad" er mwyn cadarnhau y caiff ymchwiliad cyhoeddus ei gynnal pan fydd un gwrthwynebydd yn weddill sydd am gael gwrandawriad; a
- (b) "Gweinidogion Cymru i roi hysbysiad o sylwedd gwrthwynebiadau" er mwyn cadarnhau pa bartïon y byddant yn anfon hysbysiad o sylwedd atynt a phryd.

Nodwyd hefyd nad yw Ffigur 2 yn glir o ran y gwahaniaeth yn y broses pan gynhelir cyfarfod cyn yr ymchwiliad. Caiff Ffigur 2 ei ehangu i ymhelaethu ar y rheswm pam bod angen cyfarfod cyn yr ymchwiliad o bosibl. Hefyd, caiff cynllun a diwyg Ffigur 2 eu diwygio er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng y broses pan gynhelir cyfarfod cyn yr ymchwiliad a phan na chynhelir un.

Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â'r defnydd o'r term "A: Awdurdod" yn Ffigurau 1 a 2. Caiff y term "A: Awdurdod" yn Ffigurau 1 a 2 ei ddisodli gan y term "Awdurdod Caffael".

Holodd un ymatebydd ynglŷn â pherthnasedd y blwch "Cynllun i'w atal gan broblemau cynllunio" yn Ffigur 3, gan nodi, os caiff cynllun ei "atal", yna na ddylid hyd yn oed wneud gorchymyn prynu gorfodol. Gellir bwrw ymlaen â gorchymyn prynu gorfodol ochr yn ochr â chais cynllunio neu apêl. Os caiff caniatâd cynllunio ei wrthod neu ei oedi, yna caiff hyn ei ystyried wrth wneud y penderfyniad i gadarnhau. Nid yw hyn yn atal awdurdod caffael rhag gwneud gorchymyn prynu gorfodol, ond gall rwystro'r gorchymyn prynu gorfodol rhag cael ei gadarnhau.

Cyhoeddi'r fersiwn anghywir o Atodiad A

Pan lansiwyd yr ymgynghoriad ar 9 Hydref 2019, cafwyd gwall technegol pan gafodd "*Atodiad A - Cylchlythyr Drafft 003-2019 ar Brynu Gorfodol yng Nghymru a "Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2019)"*" ei lanlwytho i wefan Llywodraeth Cymru. Roedd y Rhan 4 gywir ar goll. Lanlwythwyd y fersiwn gywir o Atodiad A ar wefan Llywodraeth Cymru ar 12 Tachwedd 2019 a oedd yn cynnwys 'Trosolwg o'r Broses Gorchymyn Prynu Gorfodol' yn Rhan 4. Ymatebwyd i'r ACLI a gododd y mater hwn yn uniongyrchol.

Y camau nesaf

- 8.10 Cynigir y dylid mabwysiadu'r canllawiau yn Rhan 4 yn y fersiwn derfynol o Gylchlythyr 003/2019 yn amodol ar y newidiadau, i'w gwneud yn fwy eglur a chyfeirio at y canllawiau technegol yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol. Caiff Rhan 4 ei hail-lunio a chaiff ei hiaith ei hadolygu er mwyn ei gwneud yn haws i'w deall.

9. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 7

C7	A ydych yn cytuno bod y rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwaredu tir dros ben o eiddo'r llywodraeth a nodir yn Rhan 5 o'r Cylchlythyr ('Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru 2019)) yn glir i gynberchenogion tir / eu holynwyr, awdurdodau lleol a chyrff statudol. Os nad ydych, pam?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid diweddarau rheolau a gweithdrefnau ar gyfer gwaredu tir dros ben o eiddo'r llywodraeth a gaffaelwyd drwy gaffaeliad gorfodol, neu o dan fygythiad caffaeliad gorfodol.	

Crynodeb Ystadegol		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	2	0	1
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	1	1	0
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	2	0	2
F	Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	0
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		10	7	1	6

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	1
Cyfanswm y Ganran	94%	6%

Adolygiad ystadegol

- 9.1 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod y rheolau a'r gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer gwaredu tir dros ben o eiddo'r llywodraeth, a gaffaelwyd drwy gaffaeliad gorfodol, neu o dan fygythiad caffaeliad gorfodol, yn Rhan 5 o'r fersiwn ddrafft o Gylchlythyr 003/2019 yn glir. O'r rhai a ymatebodd, (naill ai 'Ydw', 'Ydw, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw'), cytunodd 94%, ond anghytunodd 6%.

- 9.2 Roedd Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio, Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol oll o blaid y cynnig. Cafwyd gwrthwynebiadau gan ymatebydd o'r sector Eraill.
Ni chafwyd ymateb gan ddau ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, dau ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, ac un Awdurdod Cynllunio Lleol i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

- 9.3 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 7 fel a ganlyn:

- Cytunodd mwyafrif helaeth fod 'Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru 2019) yn glir.
- Dylid cryfhau'r cyfeiriad at awdurdodau lleol a chyrff statudol yn dilyn yr un rheolau.

Trosolwg

- 9.4 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r canllawiau yn Rhan 5. Nododd un ACLI a dau ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, a gytunodd fod y canllawiau yn Rhan 5 yn glir, ei bod yn arfer dda adlewyrchu fersiwn Llywodraeth y DU o 'Reolau Crichel Down' yn agos gan ei bod yn ddefnyddiol i gynghorwyr sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr.
- 9.5 Nododd un ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall ac un ymatebydd o'r sector Eraill y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ac ymgymerwyr statudol ddilyn y canllawiau yn Rhan 5.
- 9.6 Nododd un ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol ei bod yn glir yn y canllawiau yn Rhan 5 y dylai tir gael ei gynnig i berchenogion tir yn gyntaf.
- 9.7 Nododd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylid troi 'Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru 2019) yn statud ac y dylid newid y canllawiau i'w gwneud yn rhwymedigaeth i gynnig pob darn o dir a brynwyd yn orfodol i'r perchennog gwreiddiol neu olynydd. ***
- 9.8 Awgrymodd un ymatebydd o'r categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio y byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am Gais Cyhoeddus i Gyfarwyddo Gwaredu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980.
- 9.9 Cyflwynodd ymatebydd arall o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio y newidiadau awgrymedig canlynol i'r canllawiau yn Rhan 5:
- Gallai paragraffau 1 a 2 fod yn gliriach o ran esbonio pa gyrff y mae'n ofynnol iddynt ddilyn y Rheolau a pha rai y mae'r Rheolau yn cael eu hargymell iddynt fel arfer dda. Fel y cyfryw, gellid symud cynnwys paragraffau 1 - 3 yn Atodiad C i'r rhan gyflwyniadol o brif gorff y Rheolau.
 - Mae gwahanu'r canllawiau yn Atodiad C oddi wrth brif gorff y Rheolau yn arwain at ddyblygu diangen, h.y. Rheol 10 a pharagraff 8 o Atodiad C.
 - Mae cyfeiriad anghywir at "cyrff cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ym mharagraff 1 o Atodiad C.

9.10 Cododd ACLI y pwynt canlynol:

- Rhan 5: Paragraff 23 - mae'n nodi bod angen hysbysiadau safle sy'n cyhoeddi bod tir yn cael ei waredu ond nid yw'n glir am faint o amser. Hefyd, mae'r cyfeiriad blaenorol at hysbysiadau safle yn y fersiwn ddrafft o Gylchlythyr 003/2019 yn darparu ar gyfer gwiriadau mynych er mwyn sicrhau nad ydynt wedi cael eu tynnu ac ati. Dylai hyn fod yn arfer safonol.

Cyflwynwyd yr ymateb o dan gwestiwn 10. Tybiwyd y byddai'n fwy priodol ystyried yr ymateb drwy'r dadansoddiad o'r cwestiwn hwn o ystyried ei fod yn ymwneud â'r canllawiau a geir yn Rhan 5.

9.11 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Eraill nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C7 Ymateb Llywodraeth Cymru

Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ac ymgymrwyr statudol ddilyn 'Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru 2019)

Bwriadwn gryfhau 'Rheolau Crichel Down' er mwyn ei gwneud yn glir y dylai pob awdurdod caffael ddilyn y canllawiau fel arfer orau.

Troi'n statud

Yn ein barn ni, nid oes angen troi 'Rheolau Crichel Down' yn statud gan mai egwyddorion gweithredol sefydledig ydynt, sy'n hyrwyddo arferion gorau.

Byddwn yn ystyried newid y canllawiau yn Rhan 5 i'w gwneud yn rhwymedigaeth i gynnig pob darn o dir a brynwyd yn orfodol i'r perchennog gwreiddiol neu olynnydd.

Cais Cyhoeddus i Gyfarwyddo Gwaredu

Caiff ymchwil bellach ei chynnal i'r Cais Cyhoeddus i Gyfarwyddo Gwaredu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 er mwyn llywio penderfyniad ynghylch a ddylid cynnwys gwybodaeth am y mater hwn yn y Rheolau.

Newidiadau i 'Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru 2019)

Byddwn yn ystyried gwneud y newidiadau canlynol i'r canllawiau yn Rhan 5:

- newid paragraff 1 a 2 i'w gwneud yn gliriach i bwy y mae'r canllawiau'n ofynnol;
- cyfuno paragraff 1 - 3 ac 8 yn Atodiad C â'r rhan gyflwyniadol o brif gorff y canllawiau a pharagraff 10;
- newid paragraff 23 i'w gwneud yn eglur am faint o amser y dylai hysbysiadau safle sy'n cyhoeddi bod tir yn cael ei waredu fod wedi'u gosod a'u cynnal, a hefyd pryd y dylid cynnal gwiriadau;
- disodli'r cyfeiriad at "cyrff cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ym mharagraff 1 o Atodiad C.

Y camau nesaf

- 9.12 Cynigir y dylid mabwysiadu'r canllawiau yn Rhan 5 yn y fersiwn derfynol o Gylchlythyr 003/2019 yn amodol ar newidiadau i'w gwneud yn eglur i ba gyrff y mae'r canllawiau yn ofynnol a'r rhai yr argymhellir y canllawiau iddynt fel arfer orau. Byddwn yn ystyried cyfuno cynnwys Atodiad C a'r rhan gyflwyniadol o brif gorff y canllawiau a pharagraff 10. Caiff y canllawiau ym mharagraff 23 yn Rhan 5 ar gyhoeddi hysbysiadau safle sy'n cyhoeddi bod tir yn cael ei waredu eu newid.
- 9.13 Caiff ymchwil bellach ei chynnal i'r cyfeiriad at "cyrff cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ym mharagraff 1 o Atodiad C a chaiff ei ddiweddarau os bydd angen.

10. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 8

C8	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio paragraff 3.53 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) a ddisgrifir ym mharagraff 25 y ddogfen 'Crynodeb Gweithredol o'r Ymgynghoriad'?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid diwygio polisi cynllunio cenedlaethol, a geir ym mharagraff 3.53 o PCC (Argraffiad 10) er mwyn cryfhau'r defnydd o bwerau gorchymyn prynu gorfodol gan awdurdodau lleol i sicrhau bod eiddo a thir gwag yn cael eu defnyddio eto er budd y cyhoedd.	

Crynodeb Ystadegol

Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	3	0	0
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	1	2	1
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	2	3	0	1
F	Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	0
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		10	7	2	5

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	2
Cyfanswm y Ganran	89%	11%

Adolygiad ystadegol

- 10.1 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r cynnig i ddiwygio paragraff 3.53 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) er mwyn cryfhau'r defnydd o bwerau gorchymyn prynu gorfodol gan awdurdodau lleol. O'r rhai a ymatebodd, (naill ai 'Ydw', 'Ydw, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw'), cytunodd 89%, ond anghytunodd 11%.
- 10.2 Roedd Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio, Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol oll o blaid y cynnig. Cafwyd gwrthwynebiadau gan ddau ymatebydd o'r sector Eraill. Ni chafwyd ymateb gan un ymatebydd o'r sector Eraill i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

10.3 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 8 fel a ganlyn:

- Mae cefnogaeth bod y pwyslais ar ddefnyddio pwerau prynu gorfodol "er budd y cyhoedd" yn llai cyfyngol.
- Mae dileu'r term "amgylchiadau eithriadol" yn cynnig llwyfan ehangach i ymyriadau gorchmynion prynu gorfodol.
- Mae angen gwella proffil y polisi prynu gorfodol drwy naratif mwy cyffredin sy'n gysylltiedig â chreu lleoedd.

Trosolwg

- 10.4 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig y dylid diwygio paragraff 3.53 o Bolisi Cynllunio Cymru ("PCC") (Argraffiad 10). Nododd ACLI, a oedd yn gefnogol, y bydd y polisi diwygiedig yn sicrhau mwy o eglurder ynglŷn â defnyddio pwerau gorchmynion prynu gorfodol. Dywedodd ACLI arall y bydd yn annog y defnydd o orchmynion prynu gorfodol i ddatgloi safleoedd datblygu posibl a rhoi cyfiawnhad ychwanegol i ACLlau dros wneud gorchmynion prynu gorfodol.
- 10.5 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Eraill, er bod y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig yn ddefnyddiol, fod angen mwy o eglurder o ran ystyr y term "dull dadrisgio".
- 10.6 Nododd ACLI y bydd y newid yn y polisi i "er budd y cyhoedd" yn arwain at ddull gweithredu mwy rhagweithiol ymhlith ACLlau, cymunedau lleol, perchenogion tir a'r diwydiant datblygu o ran sicrhau datblygiadau da sy'n ystyriol o'r gymuned.
- 10.7 Croesawodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol y datganiad am geisio cytundeb lle y bo modd am ei fod yn osgoi ansicrwydd i berchenogion tir a chymunedau. Nododd yr ymatebydd hefyd y bydd cynnwys y cymunedau dan sylw a rhannu gwybodaeth â nhw ar gam cynnar yn helpu i wneud y broses yn fwy eglur.
- 10.8 Nododd un ACLI nad yw'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig yn adlewyrchu'r canllawiau yn y Cylchlythyr drafft am fod gweithredu 'lle y bo angen' yn wahanol iawn i'r ymadrodd 'pan fetho popeth arall'. Argymhellodd yr ymatebydd y dylai'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig gael ei adolygu er mwyn sicrhau bod yr iaith yn gyson â'r canllawiau yn y fersiwn gyhoeddedig o Gylchlythyr 003/2019.

- 10.9 Gofynnodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant, er ei fod yn cefnogi'r newid arfaethedig yn y polisi o 'exceptional circumstances' i 'where necessary ... in the public interest', a allai'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig fod yn fwy cadarnhaol ac yn symlach eto, o ystyried nod yr ymgynghoriad.
- 10.10 Croesawodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y cynnig i gryfhau'r gefnogaeth i ddefnyddio gorchymyn prynu gorfodol drwy bolisi cynllunio cenedlaethol, gan wneud y sylwadau canlynol:
- (a) gellid diffinio'r "dull dadrisgio" yn well;
 - (b) gellid gwella geiriad y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig i'w gwneud yn glir y dylai prynu gorfodol gael ei ystyried yn opsiwn i'w gadw mewn cof, ac i gynllunio ar ei gyfer, o'r cychwyn cyntaf; a
 - (c) nid yw'n glir ai diwygio PCC (Argraffiad 10) yw'r bwriad ynteu cyflwyno PCC newydd.
- 10.11 Mae dau ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall yn credu bod angen gwella proffil y polisi cynllunio cenedlaethol ar brynu gorfodol drwy naratif mwy cyffredinol sy'n gysylltiedig â chreu lleoedd gan ei fod yn ymddangos o dan yr adran "Tir a Ddatblygwyd yn y Gorffennol" ym Mhennod 3 o PCC (Argraffiad 10). Argymhellodd yr ymatebwyr:
- (a) dylai fod gan y polisi ynglŷn â phrynu gorfodol bennawd ar dudalen gynnwys PCC;
 - (b) dylid ystyried ymgorffori'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig ym Mhennod 2 o PCC (Argraffiad 10) gan ei bod yn cynnwys adran ar "Creu Lle ar Waith" nad yw'n cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ac adnoddau eraill ar hyn o bryd na pholisïau sy'n hanfodol i greu lleoedd yn ymarferol;
 - (c) dylai'r diffiniad o'r "dull dadrisgio" ym Mhennod 6 o PCC (Argraffiad 10) gynnwys cyfeiriad at ystyried defnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol.
- 10.12 Croesawodd un ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio y cynnig i gryfhau'r gefnogaeth i ddefnyddio gorchymynion prynu gorfodol ond awgrymodd eiriad amgen am y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig.
- 10.13 Nododd un ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant fod y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig yn cryfhau'r defnydd o orchymynion prynu gorfodol yng nghyd-destun polisi cynllunio a rhoddwyd cefnogaeth i ddileu'r cyfeiriad at "amgylchiadau eithriadol" fel y prawf ar gyfer gorchymyn prynu gorfodol. Awgrymodd yr ymatebydd y gellid cryfhau'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig ymhellach, gan gyflwyno'r newid canlynol:
- ar ôl y geiriau "use of compulsory purchase power" yn y testun Saesneg dylid mewnosod "which should be regarded by authorities as an important tool in securing development and which should be used proactively".
- 10.14 Argymhellodd ACLI, er ei fod yn cefnogi'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig, er eglurder, ac er mwyn sicrhau na chaiff safleoedd maes glas eu diystyru, y dylid gwneud y newidiadau canlynol:
- ar ôl y gair "facillate" yn y testun Saesneg y dylid mewnosod "new development, including redevelopment or improvement".
- Nododd yr ACLI y byddai'r newid hwn yn cysoni'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig â'r diffiniad yn adran 226 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac osgoi camddechongli posibl.

- 10.15 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y newid canlynol i'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig fel nodyn atgoffa y dylai budd y cyhoedd gael ei gydbwyso yn erbyn hawliau eiddo preifat:
- ar ôl y geiriau "secure better development outcomes" yn y testun Saesneg, dylid mewnosod "where the public interest in doing so outweighs private property interests" a dileu'r cyfeiriad cynharach at "public interest".
- 10.16 Anghytunodd un ymatebydd o'r sector Eraill â'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig ar y sail y byddai'n ei gwneud yn haws i'r llywodraeth genedlaethol neu awdurdodau lleol brynu eiddo am brisiau is na'u gwerth ar y farchnad agored. Amlinellodd yr ymatebydd mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu gweithredoedd o'r fath a bod gwneud hynny'n haws yn golygu y bydd yn digwydd yn amlach.

C8 Ymateb Llywodraeth Cymru

Newidiadau i'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig

Caiff y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig ei fabwysiadu yn amodol ar newidiadau yn unol â sylwadau ymatebwyr i wneud y canlynol:

- (a) cryfhau'r defnydd o bwerau prynu gorfodol ymhellach;
- (b) sicrhau cysondeb â diffiniadau a amlinellir mewn deddfwriaeth;
- (c) cynnwys cyfeiriad at yr angen i ddangos yr "achos cymhellol"; a
- (d) tynnu sylw at y cydbwysedd rhwng budd y cyhoedd a hawliau preifat.

Cafodd y geiriad amgen ar gyfer y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig a awgrymwyd gan yr yr ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio ei wrthod o ystyried bod y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig. Barnwyd hefyd fod y geiriad amgen yn llai eglur a'i fod yn mynd yn groes i ysbryd yr ymgynghoriad.

"Dull dadrisgio"

Byddwn yn ystyried cryfhau'r term "dull dadrisgio" yn y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig. Yn yr un modd, byddwn yn ystyried a yw'n briodol cynnwys cyfeiriad at brynu gorfodol yn y diffiniad o "dull dadrisgio" ym Mhennod 6 o PCC.

Cysondeb â'r canllawiau diwygiedig yn y Cylchlythyr

Caiff y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig ei adolygu cyn iddo gael ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod ei iaith yn gyson â'r canllawiau yn y fersiwn gyhoeddedig o Gylchlythyr 003/2019.

Cod ymwybyddiaeth o orchmynion prynu gorfodol fel adnodd i greu lleoedd

Bwriedir i'r argraffiad nesaf o PCC (Argraffiad 11) gael ei gyhoeddi yn hydref 2020. Byddwn yn ystyried adolygu PCC er mwyn codi proffil prynu gorfodol a'r ymwybyddiaeth ohono fel adnodd creu lle ar waith effeithiol. Yn yr un modd, byddwn yn ystyried a ddylai tudalen gynnwys PCC gynnwys is-bennawd ar bolisi prynu gorfodol er mwyn gwella'r cyfeiriadau ato.

Cyn cyhoeddi PCC (Argraffiad 11), bwriedir cyhoeddi llythyr egluro polisi a fydd yn cyhoeddi'r polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig ar ddefnyddio pwerau prynu gorfodol.

Prynu eiddo am brisiau is na'u gwerth ar y farchnad agored

Ni fydd y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gyfrifo taliadau iawndal o ganlyniad i gadarnhau gorchymyn prynu gorfodol a mynd ar dir a'i feddiannu. Mater sydd wedi'i gadw'n ol i Lywodraeth y DU yw iawndal. Fel y cyfryw, nid oes cymhwysedd gan Weinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud ag iawndal tir.

Y camau nesaf

- 10.17 Rydym yn bwriadu mabwysiadu'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig a amlinellir yn yr ymgynghoriad, yn amodol ar fân newidiadau yn unol â sylwadau ymatebwyr. Bwriedir i'r argraffiad nesaf o PCC (Argraffiad 11) gael ei gyhoeddi yn hydref 2020. Fel y cyfryw, cyn cyhoeddi PCC (Argraffiad 11), byddwn yn cyhoeddi llythyr egluro polisi a fydd yn cyhoeddi'r diwygiad i'r polisi cynllunio cenedlaethol ar ddefnyddio pwerau prynu gorfodol.
- 10.18 Byddwn yn ystyried adolygu PCC er mwyn:
- (a) cynnwys cyfeiriad at brynu gorfodol yn y diffiniad o "dull dadrisgio" ym Mhennod 6;
 - (b) codi proffil prynu gorfodol a'r ymwybyddiaeth ohono fel adnodd creu lle ar waith effeithiol; a
 - (c) gwella'r cyfeiriadau at y polisi ynglŷn â phrynu gorfodol drwy ddiwygio tudalen gynnwys PCC.

11. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 9

C9	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai ACLlau fabwysiadu polisïau cyffredinol sy'n disgrifio'r meini prawf y byddant yn eu defnyddio wrth ystyried a ddylent arfer eu pwerau prynu gorfodol neu beidio?
Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu meini prawf ar gyfer asesu pryd y gallant ystyried defnyddio eu pwerau i wneud gorchmynion prynu gorfodol.	

Crynodeb Ystadegol					
Sector		Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau)	Nac ydw	Ddim yn Gwybod
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	2
C	Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	3	1	3	0
D	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	3	1	0
E	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	1	3	0	2
F	Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	0
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		8	7	4	5

	Ydw/Ydw, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	15	4
Cyfanswm y Ganran	79%	21%

Adolygiad ystadegol

- 11.1 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r cynnig y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu meini prawf ar gyfer asesu pryd y gallant ystyried defnyddio eu pwerau i wneud gorchmynion prynu gorfodol. O'r rhai a ymatebodd, (naill ai 'Ydw', 'Ydw, yn amodol ar sylwadau' neu 'Nac ydw'), cytunodd 79%, ond anghytunodd 21%.
- 11.2 Roedd Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio, Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Eraill, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Buddiant a'r Sector Gwirfoddol oll o blaid y cynnig. Cafwyd gwrthwynebiadau gan dri Awdurdod Cynllunio Lleol ac un ymatebydd o'r sector Eraill. Ymatebodd pob ymatebydd i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol

11.3 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 9 fel a ganlyn:

- Dylai'r broses o ddiffinio a mabwysiadu polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.
- Nid yw'r cynnig yn nodi'n glir a yw hyn yn dadlau dros bolisïau mewn CDLI, canllawiau cynllunio atodol neu fenter polisi arall.
- Byddai mabwysiadu polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf yn cyfyngu ar allu ACLlau i ddefnyddio eu pwerau i wneud gorchmynion prynu gorfodol ac yn peri iddynt fynd yn groes i feini prawf deddfwriaethol o bosibl.
- Bydd meini prawf clir ynglŷn â sut y caiff pwerau gorchmynion prynu gorfodol eu defnyddio gan ACLlau yn fuddiol i gymunedau gan y bydd hynny'n rhoi eglurder a chysondeb o ran sut y caiff pwerau o'r fath eu defnyddio.

Trosolwg

- 11.4 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig y dylai ACLlau fabwysiadu polisïau cyffredinol sy'n manylu ar y meini prawf y byddant yn eu defnyddio wrth ystyried p'un a ddylent arfer eu pwerau i wneud gorchmynion prynu gorfodol ai peidio. Fodd bynnag, gwnaeth bron un o bob tri ymatebydd a roddodd ymateb sylwadau ar y cynigion. Awgrymodd un ymatebydd o'r sector Eraill, a gytunodd â'r cynnig, y byddai'n well pe bai'r meini prawf y dylai ACLlau eu mabwysiadu, yn cael eu hamlinellu yn PCC er mwyn sicrhau cysondeb. Hefyd, drwy gael canllawiau yn PCC, gallai ACLlau ganolbwyntio eu hymdrechion ar roi prosiectau lleol penodol ar waith yr ystyrir ei bod yn briodol defnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol ar eu cyfer. Nododd ACLI, a gytunodd â'r cynnig, y byddai'n anodd i ACLlau fabwysiadu meini prawf sy'n cwmpasu pob senario oherwydd yr amrywiol feysydd deddfwriaethol y gall gorchmynion prynu gorfodol ddeillio ohonynt. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai polisi yn cael ei bennu ar ran yr ACLI.
- 11.5 Nododd ymatebydd o'r sector Eraill ac ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y gallai mabwysiadu polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf alluogi ACLlau i ddefnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol yn gyson. Nododd yr ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant na fydd pob ACLI mewn sefyllfa i gyflwyno polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf os nad yw ei CDLI yn cael ei adolygu yn y dyfodol agos. Hefyd, os caiff polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf eu defnyddio, dylent fod yn fanwl. Cododd yr ymatebydd bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y gall ACLlau lunio Canllawiau anstatudol a allai fod yn amhenodol, yn anodd i'w defnyddio'n ymarferol, ac a allai arwain at broblemau cyfreithiol.
- 11.6 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y byddai polisi sy'n seiliedig ar feini prawf sydd wedi cael ei ystyried yn ofalus ac wedi'i brofi, fod o fudd i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn ardal gan y byddai'n cynnig rhywfaint o sicrwydd o ran y ffordd y defnyddir pwerau gorchmynion prynu gorfodol. At hynny, dylai'r broses o bennu a mabwysiadu polisïau o'r fath fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.
- 11.7 Amlinellodd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol y byddai darparu polisi sy'n seiliedig ar feini prawf o fudd i gymunedau o ran rhoi eglurder a'u helpu i ddeall y broses gorchymyn prynu gorfodol. At hynny, pe bai ACLlau yn cyhoeddi polisi'n fwriadol cyn gwneud gorchymyn prynu gorfodol, bydd hynny'n rhoi cyfle i godi materion perthnasol y tu allan i brosesau ymchwiliad ffurfiol.

- 11.8 Nododd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant ac ACLI nad oedd yn glir ar ba ffurf y dylai polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf o'r fath fod, h.y. wedi'u cynnwys mewn CDLI, wedi'u nodi mewn canllawiau ar wahân fel Canllawiau Cynllunio Atodol o bosibl, neu wedi'u llunio ac wedi'u rhoi ar waith fel rhan o broses gorfforaethol arall.
- 11.9 Nododd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylai ACLlau gymhwyso polisïau lleol wrth wneud eu penderfyniadau a defnyddio PCC a Chylchlythyr 003/2019 i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.
- 11.10 Haerodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant nad oedd angen i bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf gael ei fabwysiadu i bob golwg gan y gallai wrthdaro â'r meini prawf deddfwriaethol a oedd eisoes ar waith. Hefyd, ystyrir bod cwmpas penodol pwerau statudol galluogi yn cynnwys y prawf perthnasol ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol a bod canllawiau ar orchmynion prynu gorfodol yn cynnwys polisi manwl ynglŷn â'r hyn y dylid ei ystyried. At hynny, bydd y polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig yn golygu y bydd llai o angen i lunio polisi lleol. Amlinellodd yr ymatebydd fod cynigion datblygu megis cynlluniau adfywio neu gynlluniau ffyrdd, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi'u cynnwys mewn polisïau cynllunio lleol ac wedi'u cefnogi ganddynt. Hefyd, mewn rhai achosion, bydd polisïau hefyd yn nodi y bydd yr ACLI yn ystyried defnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol i helpu i'w cyflawni os oes angen.
- 11.11 Nododd ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio nad yw'r cynnig yn ddefnyddiol gan y byddai polisi sy'n seiliedig ar feini prawf yn anstatudol ac na allai effeithio ar hawl yr ACLI i ddefnyddio ei bwerau statudol. Hefyd, gallai dull gweithredu o'r fath beri'r risg o weithredu fel cam atal anghyfreithlon ar yr amgylchiadau lle y gallai fod yn briodol ystyried defnyddio gorchymyn prynu gorfodol. Awgrymodd yr ymatebydd ddull gweithredu amgen lle y byddai ACLlau yn cael eu hannog a'u cynghori i ystyried eu pwerau i wneud gorchymyn prynu gorfodol fel opsiwn wrth fabwysiadu polisïau a chynlluniau mewn perthynas â swyddogaethau lle mae pwerau gorchymyn prynu gorfodol ar gael, e.e. mewn perthynas â pholisïau ynglŷn â chartrefi ac adeiladau gwag.
- 11.12 Nododd ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall y byddai dull Creu Lle Ar Waith mwy ystyriol yn rhoi'r sail dros y dull o ddefnyddio meini prawf a awgrymwyd yng nghwestiwn 9 o'r ymgynghoriad.
- 11.13 Nododd ACLI fod y syniad o fabwysiadu polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf yn ddefnyddiol, mewn egwyddor, ond byddai angen i'r polisïau hyn gwmpasu pob un o'r pwerau i wneud gorchymyn prynu gorfodol sydd ar gael i ACLlau. Hefyd, byddai polisïau cyffredinol o'r fath yn cyfyngu ar hyblygrwydd ACLI, ac mae canllawiau yn well na pholisïau.
- 11.14 Awgrymodd ACLI arall y byddai mabwysiadu polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf yn gyfyngol, yn pennu disgwyliadau afrealistig, ac mai'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig yw'r hyn sydd ei angen. Hefyd, gallai'r gallu i ddefnyddio pwerau i wneud gorchmynion prynu gorfodol gael ei amlinellu'n benodol mewn polisi mewn CDLI ond, oni bai bod disgwyliad cadarn neu oni bai bod gwaith wedi dechrau, gallai hyn godi disgwyliadau.

Cadarnhaodd yr ymatebydd fod Cylchlythyr 003/2019 a'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig yn glir mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol ac y byddai polisi sy'n seiliedig ar feini prawf gan awdurdod lleol yn tanseilio'r dull gweithredu hwn i bob golwg.

11.15 Gwnaeth ymatebydd o'r sector Eraill sylw nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C9 Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried sylwadau'r ymatebwyr, mae'n amlwg bod safbwyntiau eang ar effaith bosibl y cynnig. Bydd angen ystyried a thrafod manylion y cynnig ymhellach, gan gynnwys a yw'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig a Chylchlythyr 003/2019 yn ddigon i roi eglurder i ACLlau ynglŷn â sut y dylent ddefnyddio eu pwerau i wneud gorchymyn prynu gorfodol a'u hannog i wneud hynny. Byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd y rhoddir y polisi cenedlaethol diwygiedig a Chylchlythyr 003/2019 ar waith er mwyn monitro'r defnydd o orchmynion prynu gorfodol gan ACLlau.

Y camau nesaf

11.16 Byddwn yn ystyried y cynnig a'i effaith ehangach bosibl ymhellach, gan gynnwys monitro'r defnydd o orchmynion prynu gorfodol gan ACLlau drwy roi'r polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig ynglŷn â defnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol a Chylchlythyr 003/2019 ar waith.

12. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 10

C10	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag isod i wneud sylwadau os gwelwch yn dda.
Rhoddodd yr ymgynghoriad gyfle i ymatebwyr wneud unrhyw sylwadau eraill sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad sy'n berthnasol yn eu barn nhw.	

Themâu allweddol

12.1 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 10 fel a ganlyn:

- Dylid estyn pwerau cynghorau cymuned a thref i wneud gorchmynion prynu gorfodol i fynd i'r afael â'r gweithgarwch presennol neu'r gweithgarwch sy'n datblygu sy'n adlewyrchu egwyddorion creu lleoedd a'r mathau a asedau cymunedol.
- Mae angen rhannu arbenigedd yn rhanbarthol er mwyn gwella gallu awdurdodau lleol.
- Gall fod yn anodd deall y rhesymau pam bod rhai penderfyniadau i gadarnhau yn cael eu gwneud a pha bwerau o dan orchymyn prynu gorfodol sy'n cael eu defnyddio at ddibenion penodol.
- Nid oes unrhyw fframwaith ar gyfer caffael drwy gytundeb cyn gorchymyn prynu gorfodol.
- Dylai ariannu fod yn gysylltiedig â llinellau amser credadwy ar gyfer defnyddio pwerau statudol.

Trosolwg

- 12.2 Gofynnodd ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio am i gynnwys cynhwysfawr gael ei fewnosod yng Nghylchlythyr 003/2019 sy'n nodi'r holl benawdau gwahanol yn y canllawiau.
- 12.3 Nododd dau ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall nad oes gan gynghorau cymuned a thref bwerau i wneud gorchmynion prynu gorfodol sy'n ymwneud â chreu lleoedd. At hynny, dylai'r amrywiol ddarpariaethau o dan Ran 7 o Ddeddf 1972 sy'n darparu y gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau i wneud gorchmynion prynu gorfodol ar ran cynghorau cymuned a thref gael eu hestyn i fynd i'r afael â'r mathau presennol o weithgarwch gan gynghorau cymuned a thref, a gweithgarwch sy'n datblygu, ar mathau o asedau cymunedol. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol estynedig sydd wedi'i gynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau gyda'r nod o roi mwy o hyblygrwydd o ran swyddogaeth a chyllid i gynghorau cymuned a thref cymwys. Nododd yr ymatebwyr hefyd fod angen ystyried ymwybyddiaeth cymunedau o'r adnoddau posibl sydd ar gael sy'n haeddu mwy o amlygiad yn PCC neu fersiwn boblogaidd o PCC er mwyn sicrhau bod cymunedau wedi'u cynnwys yn llawn.
- 12.4 Nododd ACLI y bydd gallu awdurdodau lleol yn ffactor gwirioneddol wrth weithredu'r defnydd cynyddol o bwerau gorchmynion prynu gorfodol. Hefyd, awgrymodd ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall y byddai gwasanaeth sy'n rhoi cyngor cyfreithiol arbenigol ac sydd ar gael yn rhanbarthol i roi cymorth ar orchmynion prynu gorfodol yn amhrisiadwy.

- 12.5 Cododd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y pwyntiau canlynol ynglŷn â'r broses gorchymyn prynu gorfodol:
- (a) Mae nifer o themâu sy'n codi dro ar ôl tro mewn cynlluniau diweddar ynglŷn â gorchymynion prynu a all gael effaith negyddol ar y broses gorchymyn prynu gorfodol, h.y.:
 - cyfathrebu gwael rhwng y sawl sy'n caffael, contractwyr a hawlwr;
 - methiant gan awdurdodau caffael i ddeall cost wirioneddol y cyngor proffesiynol sydd ei angen i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon ar gam cynnar;
 - caffaelwyr yn rheoli contractwyr yn wael;
 - tystiolaeth annigonol yn cael ei chyflwyno gan hawlwr i ategu hawliadau;
 - asiantau awdurdodau caffael heb ddigon o awdurdod i setlo hawliadau;
 - systemau talu annigonol sy'n methu â thalu hawliadau y cytunwyd arnynt yn brydlon;
 - diffyg parodrwydd ar bob ochr i ddefnyddio technegau amgen i ddatrys anghydfodau.
 - (b) Byddai gwella cyfathrebu a chysylltu rhwng awdurdodau caffael a'r rhai sy'n cynrychioli hawlwr yn helpu bob ochr yn y broses.
 - (c) Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu grŵp rhanddeiliaid o'r rhai sydd â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â gorchymynion prynu gorfodol fel y gellir gwella prosesau cyfathrebu, nodi problemau cyffredinol a datblygu atebion. Dylai grŵp o'r fath gynnwys cynrychiolwr o sefydliadau tir ac eiddo, h.y.: Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol; Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr; Undeb Amaethwyr Cymru; Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad; Ffederasiwn Eiddo Prydain; Y Gymdeithas Prynu Gorfodol
- 12.6 Nododd ymatebydd o'r sector Eraill ei bod yn aml yn anodd dod o hyd i benderfyniadau ar orchymynion prynu gorfodol a deall pam bod rhai penderfyniadau yn cael eu gwneud. Hefyd, pa bwerau o dan orchymyn prynu gorfodol sy'n cael eu defnyddio at ddibenion penodol.
- 12.7 Nododd ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall y byddai'n fuddiol pe bai Cylchlythyr 003/2019 yn croesgyfeirio'n glir er hwylustod ac yn cynnwys hawliau cynghorau cymuned a thref sy'n codi.
- 12.8 Nododd ymatebydd o'r Sector Gwirfoddol, gan fod gorchymynion prynu gorfodol yn gallu effeithio ar gymunedau, ei bod yn bwysig bod Cylchlythyr 003/2019 yn nodi'n glir pa mo bwysig ydyw bod cymunedau'n cael eu hysbysu'n llawn am broses a gweithdrefnau gorchymyn prynu gorfodol. Hefyd, ystyrir y byddai canllaw addas ar weithdrefnau gorchymynion prynu gorfodol i gymunedau yn ddefnyddiol er mwyn iddynt ddeall y broses a sut y gallant fod yn rhan ohoni.
- 12.9 Cododd ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall y pwyntiau canlynol:
- (a) Ymddengys nad yw'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig yn cael ei adlewyrchu'n fanwl yn y fersiwn ddrafft o Gylchlythyr 003/2019.
 - (b) Mae angen datganiad clir yn PCC a chyngor technegol sy'n nodi lle y gallai'r defnydd o bwerau gorchymyn prynu gorfodol i sicrhau tir ar gyfer datblygiad tai fod yn briodol. Mae polisi clir o'r fath yn hanfodol er mwyn i'r defnydd o bwerau o'r fath wrthsefyll unrhyw heriau posibl.
 - (c) Dylai fod esboniad clir o'r ffordd yr ymdrinnid â heriau i ddefnyddio pwerau gorchymynion prynu gorfodol, gan gynnwys trefniadau i gyfrifo cost prynu neu gostau ymgais aflwyddiannus i ddefnyddio pwerau o'r fath.

Gallant fod yn gysylltiedig â cheisiadau a ystyrir gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru neu drwy broses annibynnol. Heb eglurder ynghylch cymorth polisi nac ynghylch trefniadau gweithdrefnol, yn enwedig costau, gallai awdurdodau lleol fod yn amharod iawn i ddefnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol o'r fath.

(d) Rydym yn tybio y bwriedir i'r cyngor gweithdrefnol manwl yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol gael ei gynnwys yng Nghylchlythyr 003/2019. Byddem o blaid sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael mewn un man.

(e) Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at yr ymgynghoriad ynghylch '*Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru* (2018). Nid yw'n sôn a yw'r cynigion a nodwyd yn ymgynghoriad 2018 wedi cael eu gweithredu na sut. Mae trefniadau dros dro ar waith ar hyn o bryd i ymdrin â rhoi caniatâd seilwaith sydd wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru. Nid yw'n amlwg a yw caffael gorfodol ar gael o dan y trefniadau dros dro nac ychwaith a gaiff y rhain eu disodli gan y broses rhoi caniatâd bwrpasol.

Dylai Cylchlythyr 003/2019 gyfeirio at y pwerau caffael gorfodol sydd ar gael ar gyfer llinellau uwchben a / neu orsafoedd cynhyrchu ar y môr os ydynt ar gael. Os nad ydynt ar gael, dylai Llywodraeth Cymru bennu amserlen ar gyfer cyflwyno pwerau caffael gorfodol yn unol â'r bwriadau a nodwyd yn ymgynghoriad 2018.

12.10 Nododd ACLI fod llawer o awdurdodau yn dibynnu ar gyllid llenwi bwllch allanol a all fod yn amodol ar derfynau amser cyfyngedig i'w ddefnyddio erbyn dyddiad penodol neu, os yw ar ffurf benthygiad, ofyniad i ailgylchu'r cyllid bob pum mlynedd. Hefyd, byddai cysylltu cyllid â therfyn amser credadwy sy'n gysylltiedig â defnyddio pwerau statudol yn annog mwy o awdurdodau i ymyrryd pe bai'r cyllid a'r terfynau amser ar gyfer cyflawni yn gysylltiedig.

12.11 Nododd ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio nad oes fframwaith ar gyfer caffael drwy gytundeb cyn gorchymyn prynu gorfodol wedi'i ddarparu gan Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 y tu hwnt i nodi y gellir eu caniatáu. Hefyd, yn ymarferol, gall fod yn risg i hawlwy'r ac nid yw'n ddefnyddiol i awdurdodau caffael o ran bwrw ymlaen â materion. Haera'r ymatebydd y byddai defnyddio proses deg a strwythuredig yn y ddeddfwriaeth ar gyfer caffael drwy gytundeb yn sicrhau deialog cynnar adeiladol a bod partiön yn deall safbwynt ei gilydd. Hefyd, bydd yn cynnig proses glir â ffocws ar gyfer cynnal trafodaethau cadarn a thryloyw, gyda phob parti wedi'i ddiogelu o ran eu priod safbwyntiau ac o ran costau. Awgryma'r ymatebydd y byddai fframwaith ar gyfer caffael drwy gytundeb, yn ogystal â diogelu hawlwy'r rhag mynd i golledion na ellir eu hadennill, yn cymhell awdurdodau caffael i fabwysiadu dull gweithredu tryloyw ac yn annog deialog cynnar a thryloyw â hawlwy'r, megis busnesau sy'n dechrau adleoli. At hynny, byddai'r arfer orau hon a awgrymir yn hwyluso pob math o orchymyn prynu gorfodol.

12.12 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Eraill a awgrymodd y byddai'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad yn ei gwneud hi'n haws i asiantaethau'r llywodraeth dalu costau is i feddiannu eiddo pobl.

12.13 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Eraill nad oedd yn berthnasol i'r ymgynghoriad.

C10 Ymateb Llywodraeth Cymru

Newidiadau i'r fersiwn ddrafft o Gylchlythyr 003/2019

Byddwn yn ystyried y canlynol:

- Newid y tudalen gynnwys i gynnwys rhestr gynhwysfawr o'r holl is-benawdau a ddefnyddir yn y canllawiau.
- Ychwanegu at y canllawiau er mwyn mynd i'r afael â themâu negyddol megis:
 - cyfathrebu gwael rhwng y sawl sy'n caffael, contractwyr a hawlwyr;
 - methiant gan awdurdodau caffael i ddeall cost wirioneddol y cyngor proffesiynol sydd ei angen i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon ar gam cynnar;
 - caffaelwyr yn rheoli contractwyr yn wael;
 - tystiolaeth annigonol yn cael ei chyflwyno gan hawlwyr i ategu hawliadau;
 - asiantau awdurdodau caffael heb ddigon o awdurdod i setlo hawliadau;
 - systemau talu annigonol sy'n methu â thalu hawliadau y cytunwyd arnynt yn brydlon;
 - diffyg parodrwydd ar bob ochr i ddefnyddio technegau amgen i ddatrys anghydfodau.

Caiff arferion gorau ynglŷn â chyfathrebu a chysylltu rhwng awdurdodau caffael a'r rhai sy'n cynrychioli hawlwyr eu cynnwys yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol.

- Mewnosod hyperddolenni i wella croesgyfeiriadau yn y canllawiau.
- Gwneud y canllawiau'n fwy cyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol arfaethedig drwy ychwanegu geiriad cryfach at yr adran 'Trosolwg cyffredinol' yn Rhan 1.
- Newid paragraff 6 yn Adran B o Ran 2 i roi canllawiau penodol ar y mathau o ddatblygiadau tai y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried y gellid cyfiawnhau'r defnydd o bwerau prynu gorfodol ar eu cyfer.

O ran hawliau cynghorau cymuned a thref i brynu tir yn orfodol, credwn fod hyn wedi'i gwmpasu'n helaeth yn y canllawiau o dan Adran C yn Rhan 2. Byddwn yn ystyried mewnosod hyperddolenni yng Nghylchlythyr 003/2019 er mwyn gwella croesgyfeiriadau at ganllawiau sy'n ymwneud â chynghorau cymuned a thref.

Estyn pwerau gorchmynion prynu gorfodol Cynghorau Cymuned a Thref
Rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed ar estyn y gweithgareddau y gall awdurdodau lleol wneud gorchmynion prynu gorfodol yn eu cylch ar ran cynghorau cymuned a thref o dan y darpariaethau amrywiol yn Neddf 1972.

Mae adran 125 o Ddeddf 1972 yn darparu pŵer cyffredinol i awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol (yn amodol ar gyfyngiadau penodol) ar ran cynghorau cymuned a thref, na allant brynu drwy gytundeb, dir sydd ei angen at ddiben swyddogaeth statudol.

Fel gyda'r pŵer cyffredinol i brynu'n orfodol yn adran 121 o Ddeddf 1972, gall adran 125 (yn amodol ar gyfyngiadau penodol) gael ei defnyddio gan awdurdodau lleol ar y cyd â phwerau galluogi eraill (h.y. adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ("Deddf 1976") i gaffael tir yn orfodol at y diben a nodwyd, h.y. cyfleusterau hamdden yn achos adran 19 o Ddeddf 1976.

Er mwyn ehangu'r dibenion y gall awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol ar eu cyfer (yn amodol ar gyfyngiadau penodol) ar ran Cynghorau cymuned a thref, bydd angen i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i swyddogaethau statudol cynghorau cymuned a thref gael eu diwygio yn y lle cyntaf. Un o nodau'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yw cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol a fyddai'n caniatáu i gynghorau cymuned a thref cymwys wneud unrhyw beth cyhyd â'u bod yn gweithredu'n rhesymol, heblaw am y gweithgareddau hynny a waherddir yn benodol gan ddeddfwriaeth arall. Mae'n bosibl y bydd datblygiad Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i gynghorau cymuned a thref cymwys yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i ehangu'r dibenion y gall awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol ar eu cyfer ar ran cynghorau cymuned a thref.

Byddwn yn monitro hynt y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau ac yn diweddarau'r canllawiau yng Nghylchlythyr 003/2019 fel y bo'n briodol.

Byddwn yn ystyried a oes angen rhagor o ddeddfwriaeth i ehangu'r dibenion y gall awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol ar eu cyfer ar ran cynghorau cymuned a thref.

Cod ymwybyddiaeth o orchmynion prynu gorfodol fel adnodd i greu lleoedd: PCC

Bwriedir i'r argraffiad nesaf o PCC (Argraffiad 11) gael ei gyhoeddi yn hydref 2020. Byddwn yn ystyried adolygu PCC (Argraffiad 10) er mwyn codi proffil prynu gorfodol a'r ymwybyddiaeth ohono fel adnodd creu lle ar waith effeithiol. Yn yr un modd, byddwn yn ystyried a all y dudalen gynnwys gynnwys is-bennawd ar bolisi prynu gorfodol er mwyn gwella'r cyfeiriadau ato.

Gallu awdurdodau lleol a rhannu arbenigedd

Byddwn yn ystyried a all y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau fod yn gyfrwng i rannu adnoddau, arbenigedd ac arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â defnyddio pwerau gorchmynion prynu gorfodol gan awdurdodau lleol yn rhanbarthol drwy'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arfaethedig.

Grŵp Rhanddeiliad ar gyfer Gorchmynion Prynu Gorfodol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai un o'r dulliau mwyaf cyffredin o ymgysylltu yw drwy grŵp rhanddeiliad cynghorol. Fodd bynnag, wrth inni ymateb i *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* Llywodraeth Cymru a cheisio ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach, rydym yn ymrwymedig i wella'r ffordd rydym yn ymgysylltu ac yn cydweithio drwy lwybrau arloesol a digidol. Mae hyn yn golygu symud oddi wrth sefydlu grwpiau rhanddeiliaid cynghorol newydd.

Byddwn yn ceisio gwneud defnydd gorau posibl o fforymau grwpiau rhanddeiliaid sy'n bodoli eisoes lle bynnag y bo modd er mwyn cyfleu gwybodaeth ac arferion gorau, codi materion gydag ymarferwyr prynu gorfodol i gyflawni amcanion polisi cyffredin.

Cofrestr o Benderfyniadau ar Orchmynion Prynu Gorfodol

Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi penderfyniadau Gweinidogion Cymru ar orchmynion prynu gorfodol nac adroddiadau cyfatebol arolygwyr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried opsiwn i gyhoeddi cofrestr ar-lein o benderfyniadau ar orchmynion prynu gorfodol gan Weinidogion Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd hyn yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol drwy gyflwyno cysondeb yn y ffordd y caiff pwerau gorchmynion prynu gorfodol eu defnyddio, datblygu dealltwriaeth o'r gwahanol bwerau o dan orchymyn prynu gorfodol sydd ar gael a'u diben.

Canllawiau i berchenogion tir/busnesau/cymunedau

Byddwn yn ystyried gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau Llywodraeth Cymru i berchenogion tir, busnesau a chymunedau er mwyn eu helpu i ddeall y broses gorchymyn prynu gorfodol.

Goresgyn heriau i ddefnyddio pwerau gorchmynion prynu gorfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Is-adran Dir er mwyn helpu i ddatblygu tir cyhoeddus er budd polisi cyhoeddus. Mae'r Is-adran Dir yn ceisio rhannu arbenigedd a hyfforddiant ag awdurdodau lleol ar gydgasglu tir a buddsoddi yn y math cywir o sgiliau masnachol, y mae'r naill a'r llall yn elfennau craidd o'r broses prynu gorfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sefydlu gwasanaeth rhagwirio technegol ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol drafft er mwyn rhoi rhagor o gymorth i awdurdodau caffael ar sut y gellir goresgyn heriau i sicrhau gorchymyn prynu gorfodol llwyddiannus. Bydd y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol hefyd yn cynnwys canllawiau technegol ar gostau ond dylai unrhyw heriau a wynebir gan awdurdodau caffael ar faterion sy'n ymwneud ag iawndal gael eu codi gyda chynghorwyr proffesiynol.

Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol

Caiff canllawiau cam wrth gam technegol, manwl ac arferion gorau ar y cam anstatudol yn y broses gorchymyn prynu gorfodol eu cynnwys mewn Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol. Bydd y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol ar gael mewn fformat electronig yn unig a bydd yn cynnwys hyperddolenni sy'n croesgyfeirio at ganllawiau yng Nghylchlythyr 003/2019. Bydd y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol a Chylchlythyr 003/2019 yn ymddangos ochr yn ochr â'i gilydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yr ymgynghoriad ynghylch 'Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru (2018)

Nid yw pwerau caffael gorfodol ar gael o dan y trefniadau dros dro ar gyfer rhoi caniatâd ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni datganoledig. Mae'n rhaid gwneud cais am bwerau gorchymyn prynu gorfodol i gaffael tir ar gyfer llinellau uwchben a / neu orsafoedd cynhyrchu ar y môr o dan Ddeddf Trydan 1989 a chael caniatâd gan Lywodraeth y DU.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y sefyllfa hon yn anfoddhaol ac y dylid trosglwyddo'r swyddogaeth i roi caniatâd iddynt.

Er mwyn sicrhau bod y trefniadau dros dro yn darparu'r ystod lawn o bwerau sydd eu hangen ar ddatblygwyr, byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i drosglwyddo swyddogaethau sy'n ymwneud â'r pwerau o dan Atodlen 3 a 4 i Ddeddf Trydan 1989 fel y gall Gweinidogion Cymru awdurdodi gorchmynion prynu gorfodol, rhoi caniatâd ar gyfer ffyrddfreintiau angenrheidiol neu orchmynion i dorri neu docio coed sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu ar y tir datganoledig. Er bod darparu proses rhoi caniatâd unedig newydd yn un o amcanion Llywodraeth Cymru a nodwyd yn *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol*, nid yw yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Caiff hyn ei hadolygu'n flynyddol. Unwaith y bydd proses rhoi caniatâd seilwaith unedig newydd i Gymru ar waith, rhagwelir y bydd pwerau caffael gorfodol ar gael drwy'r system honno.

Cyllid a therfynau amser cyflawni

Wrth gyfiawnhau'r defnydd o bwerau prynu gorfodol, mae angen i awdurdodau caffael ddangos sut y byddant yn darparu cyllid i dalu am unrhyw hawliadau tebygol am iawndal.

Byddwn yn ychwanegu at y canllawiau yng Nghylchlythyr 003/2019 ac yn cynnwys arferion gorau yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol ar gysylltu cyllid â therfyn amser credadwy ar gyfer gweithredu gorchymyn prynu gorfodol.

Byddwn yn ystyried a fyddai cyflwyno terfynau amser statudol ar gyfer penderfyniadau ar orchmynion prynu gorfodol yn rhoi mwy o sicrwydd i awdurdodau lleol ac yn annog mwy o ymyrryd gan y gallai terfynau amser cyllido fod yn gysylltiedig â therfynau amser statudol.

Caffael drwy gytundeb cyn gorchymyn prynu gorfodol

Bydd y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn cynnwys arferion gorau ar yr agweddau canlynol ar y broses caffael ymlaen llaw:

- (1) Dylai awdurdodau caffael weithredu proses deg a chyfartal, yn enwedig o ran hawliadau dadleuol am iawndal.
- (2) Dylai awdurdodau caffael ystyried cynnig ymrwymo i dalu ffioedd proffesiynol gyda chanran yn cael ei thalu ymlaen llaw a'r gweddill yn cael ei ad-dalu ar adeg cwblhau gwerthiant.
- (3) Dylai awdurdodau caffael ddechrau negodiadau ar gyfer caffael ymlaen llaw gyda chyllideb glir, gyda'r cyllid ar gael i gwblhau'r broses gaffael, a bwriad difrifol i brynu'r eiddo er mwyn atal:
 - (a) materion rhag parhau am gyfnod estynedig;
 - (b) cynigion a setliadau isel;
 - (c) caledi, drwgdeimlad ac agweddau sydd wedi hen galedu; a
 - (d) oedi neu ganslo trafodyn.
- (4) Dylai awdurdodau caffael gadw ewyllys da ac ymgysylltu'n gadarnhaol â hawl wyr mewn negodiadau os ydynt yn cytuno i roi indemniad rhag ffioedd a chostau gwirioneddol y mae hawl wyr yn mynd iddynt.

Hefyd, y gall hyn atal:

- (a) oedi i gynllun sy'n arwain at leihau costau cyffredinol i'r awdurdod caffael;

- (b) lleihad mewn colledion ariannol gan fusnesau ac felly golledion posibl cyn caffael ar gyfer hawliadau am iawndal yn y dyfodol;
- (c) yr awdurdod caffael rhag wynebu cost paratoi ar gyfer ymchwiliad gorchymyn prynu gorfodol a'i gynnal.

Byddai sefydlu fframwaith ar gyfer caffael drwy gytundeb cyn gorchymyn prynu gorfodol yn gofyn am newid deddfwriaeth sylfaenol. Caiff y cynnig hwn ei ystyried yn fanylach drwy ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n sail i'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn y dyfodol.

Costau iawndal is

Ni fydd Cylchlythyr 003/2019 na'r polisi cenedlaethol diwygiedig arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar y ffordd y caiff iawndal ei gyfrifo o ganlyniad i gadarnhau gorchymyn prynu gorfodol a mynd ar dir a'i feddiannu. Mater sydd wedi'i gadw'n ol i Lywodraeth y DU yw iawndal. Fel y cyfryw, nid oes gan Weinidogion Cymru gymhwysedd i newid deddfwriaeth sy'n ymwneud â thaliadau tarfu nac iawndal tir yn gyffredinol.

Y camau nesaf

- 12.14 Wrth lunio Cylchlythyr 003/2019 yn derfynol, byddwn yn ystyried y canlynol:
- Newid y tudalen gynnwys i gynnwys rhestr gynhwysfawr o'r holl is-benawdau a ddefnyddir yn y canllawiau.
 - Ychwanegu at y canllawiau er mwyn mynd i'r afael â themâu negyddol megis:
 - cyfathrebu gwael rhwng y sawl sy'n caffael, contractwyr a hawlwr;
 - methiant gan awdurdodau caffael i ddeall cost wirioneddol y cyngor proffesiynol sydd ei angen i ymgysylltu mewn ffordd ystyrion ar gam cynnar;
 - caffaelwyr yn rheoli contractwyr yn wael;
 - tystiolaeth annigonol yn cael ei chyflwyno gan hawlwr i ategu hawliadau;
 - asiantau awdurdodau caffael heb ddigon o awdurdod i setlo hawliadau;
 - systemau talu annigonol sy'n methu â thalu hawliadau y cytunwyd arnynt yn brydlon;
 - diffyg parodrwydd ar bob ochr i ddefnyddio technegau amgen i ddatrys anghydfodau.
 - Newid y canllawiau i dynnu sylw at yr angen i gysylltu cyllid â therfyn amser credadwy i weithredu gorchymyn prynu gorfodol.
 - Mewnosod hyperddolenni i wella croesgyfeiriadau yn y canllawiau.
 - Gwneud y canllawiau'n fwy cyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol arfaethedig drwy ychwanegu geiriad cryfach at yr adran 'Trosolwg cyffredinol' yn Rhan 1.
 - Newid y canllawiau ym mharagraff 6 yn Adran B o Ran 2 i roi canllawiau penodol ar y mathau o ddatblygiadau tai y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried y gellid cyfiawnhau'r defnydd o bwerau prynu gorfodol ar eu cyfer.
- 12.15 Caiff arferion gorau ynglŷn â chyfathrebu a chysylltu rhwng awdurdodau caffael a'r rhai sy'n cynrychioli hawlwr eu cynnwys yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol.
- 12.16 Byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i drosglwyddo swyddogaethau sy'n ymwneud â'r pwerau o dan Atodlen 3 a 4 i Ddeddf Trydan 1989 fel y gall Gweinidogion Cymru awdurdodi orchmynion prynu gorfodol, rhoi caniatâd ar gyfer ffyrddfreintiau angenrheidiol neu orchmynion i dorri neu docio coed sy'n gysylltiedig â gorsafodded cynhyrchu ar y tir datganoledig.

Caiff Cylchlythyr 003/2019 ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau polisi hyn pan fydd y swyddogaethau hyn wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

- 12.17 Byddwn yn monitro hynt y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau, yn enwedig darparu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i gynghorau cymuned a thref cymwys ac yn diweddarau'r canllawiau yng Nghylchlythyr 003/2019 os yw'n briodol. Yn amodol ar ddarpariaethau terfynol y Bil hwnnw, byddwn yn ystyried yr angen i gyflwyno deddfwriaeth i ehangu'r dibenion y gall awdurdodau lleol gaffael tir yn orfodol ar ran cynghorau cymuned a thref ar eu cyfer. Caiff hyn ei ystyried o dan ddiwygiadau i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r system prynu gorfodol yn y dyfodol.
- 12.18 Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ar yr adolygiad o PCC (Argraffiad 10) cyn cyhoeddi PCC (Argraffiad 11) yn hydref 2020 yn ôl y bwriad. Byddwn yn ceisio cytundeb i gynnwys is-bennawd ar bolisi prynu gorfodol yn y dudalen gynnwys er mwyn gwella cyfeiriadau ato. Yn yr un modd, byddwn yn cynnwys cyfeiriad ym Mhennod 3 at ddefnyddio gorchmynion prynu gorfodol fel adnodd creu lle ar waith er mwyn gwella ei broffil a chodi ymwybyddiaeth ohono.
- 12.19 Byddwn yn parhau i gyfleu gwybodaeth ac arferion gorau, codi materion a datblygu atebion gydag ymarferwyr drwy grwpiau rhanddeiliaid presennol, gan gynnwys Grŵp Llywio Cymdeithas Prynu Gorfodol Cymru, er mwyn cyflawni polisi cyffredin. Byddwn yn gweithio gyda'r grwpiau rhanddeiliaid presennol i ddylanwadu ar y broses o ehangu aelodau'r grwpiau hyn.
- 12.20 Byddwn yn ystyried yr opsiwn o gyhoeddi cofrestr o benderfyniadau ar orchmynion prynu gorfodol gan Weinidogion Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi cymorth i awdurdodau lleol ar wneud defnydd effeithlon o bwerau gorchmynion prynu gorfodol.
- 12.21 Byddwn yn ystyried gweithio gyda rhanddeiliaid ar gyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru i berchenogion tir, busnesau a chymunedau yn y dyfodol er mwyn eu helpu i ddeall y broses gorchymyn prynu gorfodol.
- 12.22 Byddwn yn ystyried cyflwyno terfynau amser statudol ar gyfer penderfyniadau ar orchmynion prynu gorfodol er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i awdurdodau lleol i'w gwneud yn bosibl i derfynau amser cyllido gael eu cysylltu â therfynau amser gwneud penderfyniadau a allai, yn eu tro, gryfhau'r defnydd o bwerau gorchmynion prynu gorfodol. Caiff hyn ei weithredu o dan ddiwygiadau i'r system prynu gorfodol yn y dyfodol.

13. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 11

C11	Hoffem gael gwybod am eich astudiaethau achos lle mae pwerau prynu gorfodol wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus i gyflwyno cynlluniau adfywio a arweinir gan dai. Defnyddiwch y lle isod.
Gofynnodd yr ymgynghoriad am astudiaethau achos ymatebwyr ynglŷn â lle mae pwerau i wneud gorchymyn prynu gorfodol wedi cael eu defnyddio i gyflawni cynlluniau adfywio sy'n ymwneud â thai.	

Themâu allweddol

13.1 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 11 fel a ganlyn:

- Astudiaethau achos a roddwyd ar ddefnyddio pwerau gorchymynion prynu gorfodol i gyflawni cynlluniau adfywio.
- Arferion gorau o ran y ffordd y gellir defnyddio gorchymynion prynu gorfodol i sicrhau buddiannau deilliannol.

Trosolwg

- 13.2 Cyflwynodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant astudiaeth achos a oedd yn ymwneud â chynllun Glannau Caerlŷr a oedd yn golygu adfywio 17 erw o dir yng nghanol y ddinas gan Gyngor Dinas Caerlŷr ac a oedd yn cynnwys 80 o fuddiannau gwahanol ar gyfer tai newydd, swyddfeydd a mannau cyhoeddus. Mae'r astudiaeth achos yn cynnig arferion gorau o ran y ffordd y dylai awdurdodau caffael wneud cynigion cynnar i'w gwneud yn bosibl i fusnesau hyfyw sy'n bodoli eisoes adleoli. Hefyd, blaenoriaethu'r gwaith o reoli cydberthnasau a dangos ymrwymiad i ymgysylltu'n gynnar, a bod yn deg ac yn rhesymol i roi hyder i hawl wyr ddod i gytundeb.
- 13.3 Cyflwynodd ACLI astudiaeth achos a oedd yn ymwneud â chynllun Ardal Adfywio Gorllewin y Rhyl a oedd yn cynnwys defnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol i gael gwared ar lety rhent preifat o ansawdd gwael, darparu cartrefi newydd, mannau agored, ac annog buddsoddiad preifat.
- 13.4 Cyflwynodd ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall astudiaeth achos a oedd yn ymwneud â defnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol ochr yn ochr â chytundeb cefn wrth gefn â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn bwrw ymlaen â chynllun i adfywio sawl eiddo dadfeiliedig ym Mhenarth. Mae'r astudiaeth achos yn cynnig arferion gorau o ran y ffordd y gall gorchymyn prynu gorfodol a gweithdrefn datganiad breinio cyffredinol helpu i wneud cynnydd ar gynlluniau sydd wedi cael eu hatal dros dro tra bod negodiadau ynglŷn ag iawndal yn mynd rhagddynt.
- 13.5 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y gall cynlluniau gorchymynion prynu gorfodol sydd â'r nod o hwyluso buddiannau economaidd megis swyddi a buddsoddi sicrhau buddiannau deilliannol megis gwelliannau i dai.
- 13.6 Nododd ymatebydd arall o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y gall y defnydd o orchymynion prynu gorfodol sy'n ymwneud â phriffyrdd ryddhau tir ar gyfer gweithgarwch adfywio a arweinir gan dai yn y dyfodol.
- 13.7 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Eraill nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C11 Ymateb Llywodraeth Cymru

Astudiaethau achos

Caiff yr astudiaethau achos sy'n ymwneud â defnyddio gorchmynion prynu gorfodol i gyflawni gweithgarwch adfywio a arweinir gan dai eu cynnwys yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol:

- (a) Cynllun Glannau Caerlŷr;
- (b) Cynllun Ardal Adfywio Gorllewin y Rhyl;
- (c) Penarth.

Arferion gorau

Caiff arferion gorau eu cynnwys yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol sy'n ymwneud ag ystyried y posibilrwydd o fuddiannau deilliannol ar ôl defnyddio gorchmynion prynu gorfodol er mwyn hwyluso buddiannau economaidd megis swyddi a buddsoddi. Hefyd, sut y gall defnyddio gorchmynion prynu gorfodol sy'n ymwneud â phriffyrdd ryddhau tir ar gyfer gweithgarwch adfywio a arweinir gan dai yn y dyfodol o bosibl, os yw'n unol â CDLI mabwysiedig yr ardal.

Y camau nesaf

- 13.8 Byddwn yn cynnwys astudiaethau achos yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol sy'n ymwneud â'r cynlluniau canlynol sy'n cynnwys defnyddio pwerau gorchmynion prynu gorfodol:
- (a) Cynllun Glannau Caerlŷr;
 - (b) Cynllun Ardal Adfywio Gorllewin y Rhyl;
 - (c) Canol tref Penarth.
- 13.9 Byddwn yn cynnwys arferion gorau yn y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol sy'n ymwneud â'r canlynol:
- (a) Dylai awdurdodau caffael, o'r cychwyn cyntaf, ystyried y posibilrwydd o fuddiannau deilliannol a allai godi o ganlyniad i ddefnyddio gorchymyn prynu gorfodol er mwyn hwyluso manteision economaidd megis swyddi a buddsoddi.
 - (b) Dylai awdurdodau caffael feddwl yn strategol ynglŷn â sut y gallai cynllun priffordd sy'n cynnwys defnyddio pwerau gorchymyn prynu gorfodol ryddhau tir ar gyfer gweithgarwch adfywio a arweinir gan dai yn y dyfodol o bosibl, os yw'n unol â darpariaethau CDLI mabwysiedig yr ardal.

14. Crynodeb o'r Ymatebion - Cwestiwn 12

C12	Byddem yn croesawu eich syniadau ynghylch ble y gellid gwneud newidiadau o bosibl i'r system prynu gorfodol, yn eich barn chi, er mwyn gwella'r ffordd y caiff cynlluniau caffael gorfodol a arweinir gan dai eu cyflwyno. Defnyddiwch y lle isod.
Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ymatebwyr ynghylch a ellid gwneud newidiadau i'r system prynu gorfodol er mwyn gwella'r ffordd y caiff gorchmynion prynu gorfodol a wneir at ddibenion tai eu cyflwyno.	

Themâu allweddol

14.1 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 12 fel a ganlyn:

- Byddai cyfuno sgiliau perthnasol wrth gynllunio, paratoi a hyrwyddo gorchymyn prynu gorfodol yn helpu i ddarparu tai.
- Newid paragraff 6 o Adran B yn Rhan 2 o Gylchlythyr 003/2019.
- Grymuso awdurdodau caffael i gaffael eiddo drwy gytundeb er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau eu cyflwyno'n gynnar.
- Hyrwyddo arferion ynglŷn â'r angen i'r broses gorchymyn prynu gorfodol fod yn deg ac yn dryloyw.

Trosolwg

- 14.2 Awgrymodd ymatebydd o'r sector Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio y gallai'r canllawiau ym mharagraff 6 yn Adran B o Ran 2 o Gylchlythyr 003/2019 fod yn gliriach ynglŷn â'r mathau o ddatblygu y mae'n gymwys iddynt. Hefyd, cyfyd problem o ran diffyg hyder a mynediad at gronfa o sgiliau perthnasol wrth gynllunio, paratoi a hyrwyddo cynlluniau a arweinir gan dai sy'n cynnwys gorchmynion prynu gorfodol. Ymdrinnir ag ailsefydlu profiad ac arbenigedd â ffocws, megis Awdurdod Tir Cymru, yn Argymhelliad 7 o Adroddiad (2019) Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Senedd ar Brynu Gorfodol.
- 14.3 Nododd ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant y dylai awdurdodau caffael gael y pŵer i gaffael eiddo drwy gydsynio ar gam cynnar mewn cynllun er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau eu cyflwyno'n gyflymach ac yn rhatach, gyda llai o wrthwynebiadau ac anghydfodau. Hefyd, wrth wneud hynny, byddai angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'u rhwymedigaethau i sicrhau gwerth gorau am ariian.
- 14.4 Nododd ACLI y dylai'r canllawiau hyrwyddo arferion gorau ynglŷn â'r angen i'r broses gorchymyn prynu gorfodol fod yn deg ac yn dryloyw.
- 14.5 Nododd ACLI mai dim ond pan fydd ymwneud gan y sector preifat yn debygol, ar y telerau mwyaf ffafriol o ystyried y risgiau/costau dan sylw, y dylai awdurdodau lleol ystyried defnyddio eu pwerau statudol.
- 14.6 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant a oedd yn ymwneud â newid y sicrwydd ynghylch trethiant o ran cyfuno tir er mwyn ei gwneud yn haws i berchenogion tir gydweithio i gyflwyno datblygiadau. Barnwyd bod y mater hwn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad gan nad oedd yn ymwneud â newid i'r system gorchymyn prynu gorfodol.

- 14.7 Nododd ymatebydd o'r sector Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall y gall perchenogaeth anhysbys o dir fod yn rhwystr i hynt cynlluniau caffael tir. Cyflwynwyd yr ymateb o dan gwestiwn 9. Barnwyd y byddai'n fwy priodol ystyried yr ymateb drwy'r dadansoddiad i'r cwestiwn hwn o ystyried ei fod yn ymwneud â gwelliannau posibl i'r ffordd y caiff gorchmynion prynu gorfodol a arweinir gan dai eu cyflwyno.
- 14.8 Cafwyd sylw gan ymatebydd o'r sector Eraill nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

C12 Ymateb Llywodraeth Cymru

Addasu'r polisi ym mharagraff 6 o Adran B yn Rhan 2 o Gylchlythyr 003/2019

Byddwn yn ystyried newid y canllawiau ym mharagraff 6 yn Adran B o Ran 2 i nodi'n benodol y mathau o ddatblygiadau tai y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried y gellid cyfiawnhau'r defnydd o bwerau prynu gorfodol ar eu cyfer.

Diffyg hyder a mynediad at gronfa o sgiliau perthnasol

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Is-adran Dir er mwyn cyflymu'r broses o ddatblygu tir cyhoeddus er budd polisi cyhoeddus a rhoi system o rannu arbenigedd a hyfforddiant ar waith ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus ynglŷn â chydgasglu tir: nodi arferion gorau; a buddsoddi yn y math cywir o sgiliau masnachol.

Byddwn yn ystyried a all y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau fod yn gyfrwng i rannu adnoddau, arbenigedd ac arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â defnyddio pwerau gorchmynion prynu gorfodol gan awdurdodau lleol yn rhanbarthol drwy'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arfaethedig.

Rhoi'r pŵer i awdurdodau caffael gaffael eiddo drwy gytundeb

Caiff Cylchlythyr 003/2019 ei gryfhau i roi'r pŵer i awdurdodau caffael gaffael eiddo ar gam cynnar o gynllun. Bydd yn tynnu sylw at fuddiannau'r dull gweithredu hwn, h.y. sicrhau bod cynlluniau yn cael eu cyflwyno'n gyflymach ac yn rhatach gyda llai o wrthwynebiadau ac anghydfodau. Hefyd, bydd dull gweithredu o'r fath yn unol â sicrhau gwerth gorau am arian.

Byddai sefydlu fframwaith ar gyfer caffael drwy gytundeb cyn gorchymyn prynu gorfodol yn gofyn am newid deddfwriaeth sylfaenol. Caiff y cynnig hwn ei ystyried yn fanylach drwy ddiwygiadau i'r deddfwriaeth sylfaenol sy'n sail i'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn y dyfodol.

Yr angen i'r broses gorchymyn prynu gorfodol fod yn deg ac yn dryloyw

Bydd y Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn cynnwys arferion gorau ynglŷn â'r angen i'r broses gorchymyn prynu gorfodol fod yn deg ac yn dryloyw.

Ymwneud gan y sector preifat

Caiff Cylchlythyr 003/2019 ei gryfhau i gynghori awdurdodau lleol i ystyried lleihau'r risg a'r costau sy'n gysylltiedig â chynllun gorchymyn prynu gorfodol drwy geisio ymwneud â'r sector preifat ar delerau sy'n ffafriol i'r awdurdod lleol.

Perchenogaeth anhysbys o dir

Byddwn yn ystyried moderneiddio'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiadau safle o dan adran 11(4) o Ddeddf 1981 lle mae'r awdurdod caffael, ar ôl ymholiad dyfal, wedi'i fodloni nad yw'n ymarferol olrhain enw na chyfeiriad buddiant mewn tir sy'n debygol o gael ei gynnwys yn y gorchymyn prynu gorfodol. Byddwn yn gweithredu ar hyn o dan ddiwygiadau i'r broses gorchymyn prynu gorfodol yn y dyfodol.

Y camau nesaf

- 14.9 Byddwn yn newid Cylchlythyr 003/2019 i wneud y canlynol:
- (a) nodi'n benodol y mathau o ddatblygiadau tai y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried y gellid cyfiawnhau'r defnydd o bwerau gorchymynion prynu gorfodol ar eu cyfer;
 - (b) rhoi'r pŵer i awdurdodau caffael gaffael eiddo ar gam cynnar o'r cynllun.
- 14.10 Byddwn yn cynnwys yn y Llawlyfr ar Orchymynion Prynu Gorfodol arferion gorau ynglŷn â'r canlynol:
- (a) yr angen i'r broses gorchymyn prynu gorfodol fod yn deg ac yn dryloyw; a
 - (b) y broses caffael ymlaen llaw.
- 14.11 Byddwn yn ystyried moderneiddio'r weithdrefn o dan Ddeddf 1981 ar gyfer gosod hysbysiadau safle lle na ellir olrhain enw na chyfeiriad buddiant mewn tir. Byddwn yn gweithredu ar hyn o dan ddiwygiadau i'r system prynu gorfodol yn y dyfodol.

ATODIAD A - RHESTR O'R YMATEBWYR

Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio		Awdurdodau Cynllunio Lleol	
005	Geldards	004	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
009	Whitecroft Property Services Ltd	007	Cyngor Dinas Casnewydd
Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall		008	Cyngor Sir Ynys Môn
003	Cyngor Tref Bae Colwyn	010	Cyngor Sir Powys
006	Cyngor Tref Penarth	014	Cyngor Sir Caerfyrddin
012	Un Llais Cymru	022	Cyngor Bwrdeistref Sirol
013	Cyngor Tref y Barri	024	Cyngor Sir Ddinbych
Cyrrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant		Y Sector Gwirfoddol	
015	Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol	019	Cymorth Cynllunio Cymru
016	Yr Ymddiriedolaeth Theatrau	Arall	
018	Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru	001	Unigolyn preifat
020	Cymdeithas Prynu Gorfodol	002	Unigolyn preifat
021	Cymdeithas y Cyfreithwyr	011	Glandŵr Cymru ("Canal & River Trust")
023	Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad	017	Unigolyn preifat

At ddibenion diogelu data, mae enwau a chyfeiriadau'r ymatebwyr hynny nad oeddent am gael eu henwi wedi cael eu dileu o'r mynegai uchod ac o'r ymatebion cyhoeddedig i'r ymgynghoriad.